

Adroddiad Arolygu Anabledd Dysgu - 03100

(Dirybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin
Bevan

Lleoliad Ysbyty'r GIG

Dyddiad yr arolygiad: 31 Ionawr a 1 Chwefror 2023

Dyddiad cyhoeddi: 4 Mai 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	10
	• Ansawdd Profiad y Claf	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	16
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	27
4.	Y camau nesaf	30
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	31
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	32
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	43

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o leoliad ysbyty anabledd dysgu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 31 Ionawr a 1 Chwefror 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, gwelsom rhyngweithio parchus rhwng y staff a'r cleifion, ond roedd angen gwneud rhai gwelliannau ym maes ymgysylltu â'r cleifion yn briodol ac yn effeithiol. Roedd dodrefn, gosodiadau a ffitiadau'r uned yn briodol i'r grŵp cleifion ond dylid gwneud mwy o waith addurno er mwyn creu amgylchedd mwy plaserus a therapiwtig yn yr uned yn unol ag anghenion y cleifion. Ni chawsom sicrwydd bod rhaglen o weithgareddau therapiwtig effeithiol ac ysgogol ar gael i'r cleifion ar yr uned. Rhaid recriwtio Therapydd Galwedigaethol llawn amser i'r uned a dylai rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau therapiwtig gael ei datblygu a'i chyflwyno i'r cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu hyfforddiant ar werthoedd i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio iaith briodol mewn perthynas â gofal cleifion fel eu bod yn gwrando ar y cleifion ar yr uned, yn eu cydnabod ac yn eu parchu
- Dylai gwybodaeth berthnasol a chyfredol i'r cleifion gael ei harddangos yn ardaloedd cymunedol yr uned
- Dylai'r bwrdd iechyd gymryd camau i sicrhau bod yr elfen ysbrydol, grefyddol a bugeiliol ar ofal y cleifion yn cael ei chydabod a'i thrin
- Dylid rhoi proses ar waith i ymgysylltu â'r cleifion a gofawyr er mwyn cael adborth am eu profiad ar yr uned.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod cofnodion y cleifion yn dangos tystiolaeth o asesiadau corfforol a gwaith monitro manwl a phriodol. Roedd gan y cleifion gynlluniau gofal a thriniaeth personol a oedd yn canolbwyntio arnynt fel unigolion ac roeddent yn cynnwys lefel briodol o wybodaeth fanwl i gefnogi gofal cleifion. Roedd yn gadarnhaol nodi bod gwelliannau wedi cael eu gwneud i brosesau cadw cofnodion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar ôl ein harolygiad blaenorol o'r uned, ond roedd rhai gwallau i'w gweld yn nogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl a dogfennau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Nodwyd y dylai'r staff gael mwy o hyfforddiant a chymorth llywodraethu i sicrhau bod dogfennau'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'u bod yn gyflawn ac yn cael eu cyflwyno'n gywir.

Gwelsom dystiolaeth o arferion da mewn perthynas â rhoi meddyginiaethau a chyffuriau a reolir ond roedd angen gwneud rhai gwelliannau i drefniadau rheoli meddyginiaethau ac atal a rheoli heintiau.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

Yn ystod yr arolygiad, ni chafodd AGIC sicrwydd bod iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion, y staff ac ymwelwyr yn cael eu hyrwyddo a'u hamddiffyn. Yn ogystal, nid oedd risgiau posibl o niwed yn cael eu nodi, eu monitro na, lle bo hynny'n bosibl, eu lleihau neu'u hatal. Roedd angen i'r bwrdd iechyd weithredu ar unwaith ar y materion canlynol:

- Gwelsom dair enghraifft o risg uniongyrchol bosibl i ddiogelwch y cleifion a gwnaethom ddweud wrth y staff y dylid eu symud, ond dim ond un risg a gafodd ei symud cyn diwedd ein harolygiad.
- Edrychwyd ar bedwar cofnod ar gyfer cleifion a oedd yn destun arsylwadau therapiwtig a gwelsom fod y cofnodion arsylwi therapiwtig yn cynnwys llawer o fylchau mawr a oedd yn dangos nad oeddent wedi cael eu diweddarau am gyfnodau estynedig o amser.
- Gwnaethom edrych ar chwe digwyddiad ar Datix yn ymwneud â gwallau meddyginiaeth ac atal cleifion yn gorfforol a gwelwyd nad oedd y cofnodion ar gyfer y chwe digwyddiad yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwiliad. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff nad ydynt yn deall y weithdrefn gywir i'w dilyn er mwyn rheoli digwyddiadau ar Datix ac ymchwilio iddynt yn llwyddiannus yn unol â'u dyletswyddau.
- Roedd lefel gydymffurfiaeth o 79% ymhlith y staff â Hyfforddiant ar Reoli Ymddygiad Cadarnhaol a Datgysylltu (*Breakaway*). Ni allai'r staff roi data cywir i AGIC ar arferion cyfyngol i ganfod sawl gwaith roedd cleifion wedi cael eu hatal yn gorfforol dros y tri mis diwethaf. Ni allai'r staff ddweud a oedd aelodau o'r staff nad oeddent yn cydymffurfio â'u hyfforddiant ar atal yn gorfforol wedi helpu i atal cleifion yn gorfforol yn ystod y cyfnod hwn.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid rhoi proses archwilio ar waith i sicrhau bod pawb sy'n ymweld â'r uned yn cael eu cofnodi a bod modd rhoi cyfrif amdanynt
- Rhaid i uwch-reolwyr adolygu archwiliadau clinigol yn rheolaidd fel bod unrhyw broblemau'n cael eu nodi a chyfleoedd i wella ansawdd yn cael eu rhannu

- Dylid cymryd camau i sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â Chod Gwisg y GIG Cymru Gyfan, a rhaid i ddillad gwaith fynd i'r afael ag argymhellion lechyd a Diogelwch allweddol
- Dylai'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o'r dewis o fwyd i gleifion a ddarperir yn yr ysbyty, ei ansawdd a'r ffordd y caiff ei baratoi, er mwyn sicrhau ei fod yn flasus ac yn bodloni'r cleifion.
- Dylid rhoi rhaglen gadarn ar waith i oruchwylio trefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau bod ystafell y clinig yn cael ei chynnal a'i chadw'n briodol, bod meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal gan staff cymwysedig
- Rhaid osgoi defnyddio'r ystafell ymwelwyr fel ystafell wely ychwanegol pan fo'r uned yn llawn er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Cadarnhaodd y staff fod strwythur llywodraethu ar waith yn nhermau gweithgareddau a chyfarfodydd i drafod digwyddiadau, canfyddiadau a materion sy'n ymwneud â gofal cleifion. Fodd bynnag, ni chawsom sicrwydd bod y strwythur llywodraethu'n darparu cymorth gweithredol cryf nac arweinyddiaeth ac atebolrwydd clir i staff y ward. Gwelsom nad oedd y trefniadau i oruchwylio'r strwythur llywodraethu yn ddigon cryf yn gyffredinol mewn perthynas ag agweddau ar ddiogelwch cleifion, cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol, arsylwadau therapiwtig ac ymchwiliadau Datix. Ni chawsom sicrwydd bod y systemau a'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn cefnogi gwelliannau parhaus ac yn rhannu gwersi i'w dysgu o ddigwyddiadau a digwyddiadau negyddol difrifol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd ymgysylltu'n llawn â staff y ward i gryfhau systemau rheoli ac arwain er mwyn llywodraethu a goruchwylio'r uned yn gadarn
- Rhaid i'r bwrdd iechyd nodi pa hyfforddiant sydd ei angen ar y staff a meysydd y mae angen eu gwella er mwyn sicrhau bod yr uned yn cael ei rheoli'n effeithiol
- Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ar yr uned yn llawn
- Dylid rhoi rhaglen gadarn ar waith i oruchwylio trefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau bod hyfforddiant gorfodol yn cael ei gwblhau a'i fonitro'n rheolaidd a bod staff yn cael eu cefnogi i ymgymryd â'r hyfforddiant
- Dylai'r staff goruchwylio gael hyfforddiant i ddefnyddio'r system Cofnodion Staff Electronig fel y gallant weld cofnodion hyfforddiant staff a goruchwylio lefelau cydymffurfiaeth staff â hyfforddiant

- Dylid adolygu'r system matrices hyfforddiant bresennol gyda'r nod o gofnodi cydymffurfiaeth pob aelod o'r staff â hyfforddiant ar un system er mwyn gallu llywodraethu a monitro'r sefyllfa yn hwylus.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Cadw'n Iach

Diogelu a Gwella Iechyd

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion yn ystod yr arolygiad a gwelsom dystiolaeth bod eu hanghenion iechyd corfforol wedi cael eu hystyried yn ogystal â'u gofal iechyd meddwl. Gallai'r cleifion gael gafael ar wasanaethau meddyg teulu a deintyddol a gweld gweithwyr iechyd corfforol proffesiynol eraill yn ôl yr angen. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos tystiolaeth o asesiadau corfforol a gwaith monitro manwl a phriodol.

Yn ystod ein harolygiad blaenorol o'r uned yn 2017, gwelsom fod angen rhoi sylw i nifer o feysydd er mwyn gwneud yr amgylchedd yn llai llwm ac yn fwy cyfforddus i'r cleifion. Yn ystod yr arolygiad hwn, roedd yn gadarnhaol nodi bod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud yn y maes hwn, gan gynnwys bath synhwyraidd Hi Lo a osodwyd yn ddiweddar sydd o fudd seicolegol a meddygol i'r cleifion. Fodd bynnag, gwelsom unwaith eto fod yr amgylchedd ar y cyfan yn llwm ac yn ddiaddurn. Roedd marciau ar loriau a walïau'r uned, ac ychydig iawn o eitemau meddal oedd ar gael a fyddai'n helpu i greu amgylchedd ymlaciol a phleserus i'r grŵp cleifion. **Rydym yn argymhell y dylai mwy o welliannau addurnol gael eu gwneud er mwyn gwneud ardaloedd cymunedol yr uned yn fwy dymunol i'r cleifion.** Gwelsom hefyd fod tymheredd amgylchol yr uned yn oer ar y cyfan yn ystod ein harolygiad. **Rydym yn argymhell y dylid adolygu'r tymheredd amgylchol er mwyn sicrhau bod y cleifion, y staff ac ymwelwyr yn gysurus.**

Gallai'r cleifion symud fel y mynnent o fewn yr uned a mynd i'w hystafelloedd gwely, ardaloedd cymunedol a gardd amgaeedig. Roedd ardaloedd o ddecin a glaswellt yn yr ardd yn ogystal â gwelyau plannu uchel a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau a therapiau'r cleifion. Yn ystod ein taith o amgylch yr uned, gwelsom fod y decin yn llithrig iawn ac y gallai fod yn beryglus i unrhyw un sy'n defnyddio'r ardd. **Rydym yn argymhell y dylid cymryd camau i wella diogelwch y decin er budd y cleifion, y staff ac ymwelwyr.**

Gwelsom fod ystafell ddydd yr uned yn ardal fwyta a byw agored a mawr iawn, heb fawr o ddodrefn. O ganlyniad i wacter ac acwsteg yr ystafell, gallai'r ardal hon fod yn swnllyd iawn ac ar ben hynny, roedd drysau swyddfa'r uned i'w clywed yn cau'n

glep drwy gydol y dydd. **Rydym yn argymell y dylid cymryd camau i leihau sŵn ar yr uned er cysur y cleifion, y staff ac ymwelwyr.**

Yn ystod yr arolygiad, dywedwyd wrthym fod anghenion ac asesiadau risg cleifion unigol yn golygu nad oedd modd cynnal gweithgareddau therapiwtig penodol ar yr uned. Fodd bynnag, ni chawsom sicrwydd bod rhaglen o weithgareddau therapiwtig effeithiol ac ysgogol ar gael i'r cleifion. Clywsom nad oedd Therapydd Galwedigaethol wedi bod ar yr uned ers cryn amser ond bod proses recriwtio ar waith ar y pryd. Dywedwyd wrthym fod yr uned wedi penodi Therapydd Galwedigaethol rhan amser a oedd yn gweithio i asiantaeth ond nad oedd amserlen o weithgareddau therapiwtig a hamdden wedi'i threfnu ar gyfer y cleifion. Roedd y byrddau a'r amserlenni gweithgareddau yn yr ystafell ddydd yn wag felly ni fyddai'r cleifion yn ymwybodol o unrhyw weithgareddau a oedd ar gael iddynt. **Rydym yn argymell y dylid diweddarau'r amserlen weithgareddau yn gyson a sicrhau ei bod ar gael i'r cleifion.**

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod y cwpwrdd jig-sos a gemau wedi cael ei symud yn ddiweddar i'r ystafell ymwelwyr am iddo gael ei ddifrodi'n ddiweddar, sy'n golygu nad oes unrhyw weithgareddau hamdden yn yr ystafell ddydd. Roedd ystafell weithgareddau'r uned yn cael ei defnyddio fel ystafell storio ar gyfer eitemau cyffredinol ac eiddo personol y cleifion ond dywedwyd wrthym y byddai'r ystafell hon yn cael ei throï yn ystafell weithgareddau a warchodir yn y dyfodol. **Rydym yn argymell y dylid gweithredu'n gynt i greu ystafell weithgareddau a warchodir er budd y cleifion. Rydym yn argymell hefyd fod yn rhaid recriwtio Therapydd Galwedigaethol llawn amser i'r uned ac y dylai rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau therapiwtig gael ei datblygu i'r cleifion.**

Ni welsom unrhyw wybodaeth i gleifion na gofalwyr ar yr uned am hybu iechyd neu roi'r gorau i smygu. Gwelsom fod nifer o fonion sigarêts yn y manau planhigion a'r borderi yn yr ardd a oedd yn annymunol ac yn anhylan yr olwg. **Rydym yn argymell y dylid glanhau a chynnal a chadw'r ardd at ddefnydd y cleifion.**

Gofal ag urddas

Gofal ag urddas

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom ryngweithio parchus rhwng y staff a'r cleifion ar y cyfan, ond roedd angen gwneud rhai gwelliannau ym maes ymgysylltu â'r cleifion yn briodol ac yn effeithiol. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y staff yn ymateb yn gyflym i gleifion a oedd mewn sefyllfaoedd lle roedd yn rhaid iddynt weithredu ar unwaith. Fodd bynnag, gwelsom fod y cleifion yn cael eu hanwybyddu weithiau pan roeddent yn cnocio ar wydr yr orsaf nyrsio er mwyn siarad â'r staff, a gwelsom rai aelodau o'r staff yn siarad â'r cleifion drwy'r gwydr yn hytrach na chael sgwrs

wyneb i wyneb ystyrllon â nhw. Gwelsom hefyd fod rhai o drafodaethau'r staff ynghylch gofal cleifion yn amheronol, yn yr ystyr fod y staff yn defnyddio terminoleg ac iaith fel eu bod yn gweithio 'ar' glaf yn hytrach na'u bod yn cael eu dyrannu i gefnogi claf, neu eu bod yn mynd i 'wneud cawod' yn hytrach na helpu claf i gael cawod. **Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu hyfforddiant ar werthoedd i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio iaith briodol mewn perthynas â gofal cleifion fel eu bod yn gwrando ar y cleifion ar yr uned, yn eu cydnabod ac yn eu parchu.**

Roedd yn braf gweld bod y staff nyrsio rheolaidd yn wybodus am y cleifion ac roedd yn glir bod rhai cydberthnasau proffesiynol da wedi cael eu datblygu i gefnogi iechyd a llesiant y cleifion. Fodd bynnag, nodwyd na welwyd pob aelod o'r staff asiantaeth yn ymgysylltu na'n cynnal gweithgareddau â'r cleifion yn ardaloedd cymunedol yr uned. Gwnaethom siarad â'r cleifion a gadarnhaodd fod y staff rheolaidd yn ymatebol, yn gefnogol ac yn barod i helpu, ond gwnaethant ddweud nad oeddent wedi meithrin cydberthnasau â'r staff asiantaeth am nad oeddent yn teimlo bod y staff asiantaeth yn gwybod sut i'w cefnogi. Yn ystod ein sgysiau â'r staff, gwnaethant ddatgelu pryderon nad oedd y staff asiantaeth yn ymgysylltu'n llawn â'r cleifion ac y byddent yn treulio rhan helaeth o'r diwrnod yn eu harsylwi. **Rydym yn argymhell y dylid cymryd camau i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgysylltu'n llawn â'r cleifion er mwyn meithrin cydberthnasau ystyrllon rhwng y staff a'r cleifion.**

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod claf benywaidd yn aros ar yr un coridor â dau glaf gwrywaidd a'u bod yn rhannu ystafell ymolchi gymunedol ar yr un coridor. Nodwyd nad oedd y trefniadau hyn yn cyd-fynd ag Egwyddorion Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu'r bwrdd iechyd ar gyfer Rheoli Wardiau Cymysg. Gwnaethom drafod y mater â'r staff ac o ganlyniad, cafodd aelod o'r staff ei dyrannu i fonitro'r coridor dros nos er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion. **Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr uned yn glynu wrth Egwyddorion yr Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ar gyfer Rheoli Wardiau Cymysg, bod mesurau diogelwch yn cael eu rhoi ar waith, a bod cynlluniau gofal ac asesiadau risg yn cael eu diweddarau'n unol â hynny.**

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd cyfarfodydd trosglwyddo shift dyddiol yn cael eu cynnal i'r staff nyrsio rannu gwybodaeth am gleifion ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r tîm amlddisgyblaethol am unrhyw bryderon, materion neu ddigwyddiadau a oedd wedi codi yn ystod y diwrnod blaenorol. Gwnaeth staff yr uned ddangos dealltwriaeth dda o'r cleifion roeddent yn gofalu amdanynt. Roedd yr uned yn defnyddio technoleg ddigidol fel adnodd i'w helpu i gyfathrebu'n effeithiol drwy gyfarfodydd ar-lein, trafodaethau dros y ffôn a chyfnewid negeseuon e-bost er mwyn sicrhau gofal amserol i gleifion.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod anghenion cyfathrebu'r cleifion yn cael eu nodi yn eu cynlluniau gofal a thriniaeth a bod cyngor yn cael ei roi i ddefnyddio amserlenni gweledol lle bo hynny'n berthnasol. Disgrifiodd y staff hefyd sut roeddent yn helpu'r cleifion i ddeall eu meddyginiaeth a sgil-efeithiau posibl drwy ddefnyddio iaith briodol a darparu dogfennau hawdd eu deall.

Gwybodaeth i gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom nad oedd llawer o wybodaeth berthnasol yn cael ei harddangos i gleifion, teuluoedd na gofalwyr ar y wardiau ar y cyfan. Roedd bwrdd ffotograffau o'r strwythur staff wedi cael ei gwblhau'n rhannol yn yr ystafell ddydd ond nid oedd wedi cael ei orffen eto. Roedd y Bwrdd Staff i ddangos gwybodaeth am y tîm staff, gan gynnwys y nyrs arwain ar gyfer pob shift, yn wag. Yn ystod ein taith o amgylch yr uned, gwelsom nad oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos ynglŷn ag amseroedd ymweld i deuluoedd a gofalwyr, rôl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Ddeddf Iechyd Meddwl, na gwasanaethau cyfieithu. Ni welsom unrhyw wybodaeth am ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn cael ei harddangos ar y ward ychwaith.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff gwybodaeth berthnasol a chyfredol i'r cleifion ei harddangos yn ardaloedd cymunedol yr uned ac y caiff ei darparu mewn fformat sy'n hygyrch i gleifion ag anawsterau cyfathrebu neu namau gwybyddol.

Gofal amserol

Mynediad Amserol

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal amserol yn unol ag anghenion clinigol. Roedd yr uned yn cynnal cyfarfodydd trosglwyddo shift a chyfarfodydd staff dyddiol er mwyn nodi'r lefelau defnydd gwelyau a thrafod anghenion gofal y cleifion. Roedd cyfarfodydd amlddisgyblaethol rheolaidd yn cael eu cynnal hefyd lle roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal amserol. Gwelsom fod llawer o gyfarfodydd a phrosesau ychwanegol a oedd yn cefnogi gofal y cleifion ac yn monitro cynnydd y cleifion a oedd yn aros i gael eu rhyddhau a'u lleoli yn y gymuned.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar gynlluniau gofal a thriniaeth a chynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol tri chlaf ar yr uned. Roedd yn gadarnhaol gweld bod y cynlluniau'n canolbwyntio ar yr unigolion dan sylw, eu bod wedi'u cwblhau'n dda a'u bod yn rhoi darlun manwl cyffredinol o'r cleifion unigol.

Roedd y cynlluniau'n canolbwyntio ar adferiad a phroses adsefydlu'r cleifion a gwelsom dystiolaeth bod y cleifion, eu cynrychiolwyr a gwasanaethau cymunedol yn cyfrannu at y broses. Roedd trefniadau cynllunio gweithredol ar waith ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty pan oeddent yn barod i gael eu rhyddhau.

Roedd gan yr uned ystafell ymweld lle gallai'r cleifion gwrdd â'u teuluoedd mewn preifatrwydd a gallai'r cleifion gadw mewn cysylltiad rheolaidd â theulu a ffrindiau gyda chymorth y staff. Gwelsom fod rhai o'r cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allanol â gwasanaethau cymunedol a oedd yn rhoi cymorth ychwanegol iddynt. Gallai'r cleifion ddewis eu dillad a'u bwyd eu hunain ac roeddent yn cael eu hannog i olchi eu dillad eu hunain gyda chymorth y staff lle bo angen. Fodd bynnag, roedd yr ystafell golchi dillad yn anniben yn ystod ein harolygiad, gyda dillad cleifion dros y llawr. **Rydym yn argymhell y dylid tacluso a chynnal a chadw'r ystafell golchi dillad at ddefnydd y cleifion.**

Hawliau pobl

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar ddau gofnod ar gyfer cleifion a oedd wedi cael eu cadw yn yr ysbyty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac un cofnod ar gyfer claf o dan awdurdodiad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Roedd y dogfennau cyfreithiol a welsom ar gyfer y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ond roedd angen gwneud rhai gwelliannau o safbwynt eu cwblhau. Roedd eiriolwr iechyd meddwl ar gael i'r cleifion a all roi gwybodaeth a chymorth i'r cleifion o ran unrhyw faterion a allai godi mewn perthynas â'u gofal. Ceir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau ar y ddogfennaeth gyfreithiol yn adran Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yr adroddiad hwn.

Roedd gan yr ysbyty bolisiau sefydledig er mwyn helpu i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth y cleifion yn cael eu parchu, a bod eu hawliau dynol yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y bwrdd iechyd wedi dirwyn i ben ym mis Tachwedd 2021. Mae'n bwysig bod polisiau'n cael eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn rhoi arweiniad clir i'r staff. Roedd y gofal a roddwyd i'r cleifion yn gyson yn unol â grŵp oedran a gofynion y claf. Roedd addasiadau rhesymol ar waith fel y gallai pawb gael gafael ar wasanaethau a'u defnyddio ar sail gyfartal. Roedd y dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau yn briodol i'r grŵp cleifion. Roedd drysau'r brif uned a'r coridorau mewnol yn ddigon llydan i roi mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn. Roedd cyfarpar codi mecanyddol a chyfarpar arbenigol ar gael i'w defnyddio yn ôl y gofyn.

Yn ystod yr arolygiad, ni welsom dystiolaeth o brosesau a roddwyd ar waith gan y bwrdd iechyd i gydnabod yr elfen ysbrydol, grefyddol a bugeiliol ar ofal y cleifion. Gwnaethom drafod sut mae'r lleoliad yn ymdrin ag amrywiaeth a hawliau unigolion a chawsom wybod nad oedd adnoddau ar yr uned ac nad oedd addasiadau wedi'u gwneud i ddiwallu anghenion crefyddol, diwylliannol neu ysbrydol y cleifion.

Dywedodd y staff y byddent yn gofyn am fwy o arweiniad gan y bwrdd iechyd pe bai unrhyw gleifion o'r fath yn cael eu derbyn i'r uned. **Dylai'r bwrdd iechyd gymryd camau i sicrhau bod yr elfen ysbrydol, grefyddol a bugeiliol ar ofal y cleifion yn cael ei chydabod a'i thrin.**

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y bwrdd iechyd broses ar waith lle gallai'r cleifion uwchgyfeirio pryderon drwy weithdrefn gwyno Gweithio i Wella y bwrdd iechyd. Dywedodd uwch-aelodau o staff wrthym, lle bynnag y bo'n bosibl, y byddent yn ceisio datrys cwynion ar unwaith a rhannu gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau yn briodol. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â gwrando ar adborth a dysgu ohono.

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym fod gweithdrefn Gweithio i Wella y bwrdd iechyd ar Reoli Pryderon a Godir gan Gleifion a'u Cynrychiolwyr wedi dirwyn i ben ym mis Ionawr 2019. Gwelsom fwrdd 'Sut i Wneud Cwyn', dyddiedig Medi 2022, gerllaw prif fynedfa'r uned, ond nid oedd unrhyw wybodaeth benodol am sut i wneud cynnau o dan Gweithio i Wella i'w gweld ar y wardiau. Mae hyn yn golygu nad yw'r cleifion a gofaluwr yn cael cyfeiriad clir at y broses gwyno. **Rydym yn argymhell y dylai gwybodaeth am Gweithio i Wella gael ei harddangos ar y ward er gwybodaeth i gleifion a gofaluwr.**

Yn ystod arolygiad blaenorol o'r uned yn 2017, gwelsom nad oedd proses ffurfiol ar waith i gael adborth gan y cleifion am y gwasanaeth, ond roedd y staff yn rhan o brosiect parhaus i ddatblygu system ffurfiol o gael adborth gan y cleifion. Yn ystod yr arolygiad hwn, roedd yn siomedig gweld nad oedd unrhyw broses ffurfiol ar waith o hyd lle y gallai'r cleifion drafod materion a rhoi adborth. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn siarad â'r cleifion yn rheolaidd i gael eu barn a bod yr uned yn cynnal bore coffi bob dydd Gwener lle gallai'r cleifion drafod unrhyw faterion. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth i ddangos bod yr uned yn casglu adborth yn rheolaidd ac yn gweithredu arno yn ôl yr angen. Nodwyd gennym nad oedd y bwrdd 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' wedi cael ei ddiweddarau ers mis Awst 2022. Dywedodd y staff wrthym nad oedd proses flaenorol yr uned ar gyfer cael adborth gan deuluoedd a gofaluwr ar waith mwyach a bod hyn eisoes wedi cael ei nodi fel maes y mae angen ei wella. **Rydym yn argymhell y dylai proses gael ei rhoi ar waith i ymgysylltu â chleifion a gofaluwr er mwyn cael adborth am eu profiad ar yr uned, ac y dylai byrddau adborth cleifion gael eu diweddarau drwy'r amser.**

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal Diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod gan y staff larymau personol i alw am gymorth brys a chawsom sicrwydd bod digon o larymau personol ar gael i'r staff i gyd. Roedd yr uned wedi'i diogelu'n briodol rhag mynediad anawdurdodedig ac roedd pob ymwelydd yn defnyddio'r system intercom er mwyn cael mynediad. Fodd bynnag, cawsom wybod bod nifer yr allweddi a roddir i'r staff yn annigonol ac yn eu hatal rhag cyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel. **Rydym yn argymhell bod yn rhaid rhoi nifer digonol o allweddi i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel.** Cadarnhaodd y staff bod proses cofnodi ymwelwyr ar waith ar yr uned, ond na fyddai gofyn i unrhyw berthnasau a gofaluwr sy'n hysbys i'r staff lofnodi cofnod ymweld ac na fyddai eu manylion yn cael eu cofnodi bob amser. Gwnaethom fynegi pryder bod hyn yn peri risg o ran lechyd a Diogelwch, tân a diogeledd pe bai unrhyw unigolion yn ymweld â'r uned ac na fyddai modd rhoi cyfrif amdanynt yn ystod argyfwng. **Rydym yn argymhell bod yn rhaid rhoi proses archwilio ar waith i sicrhau bod pawb sy'n ymweld â'r uned yn cael eu cofnodi a bod modd rhoi cyfrif amdanynt.**

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod asesiadau risg ac archwiliadau lechyd a Diogelwch priodol wedi cael eu cynnal. Dangosodd staff y ward ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r archwiliadau hynny ond roedd yn bryderus nodi bod rhai uwch-aelodau o'r staff wedi dangos diffyg ymwybyddiaeth a goruchwyliaeth mewn perthynas â'r prosesau hyn. Gwelsom fod diffyg eglurder ynghylch goruchwyllo'r trefniadau llywodraethu ar gyfer asesiadau risg ar y ward a fyddai'n dangos eu bod yn cael eu hadolygu gan uwch-reolwyr a bod unrhyw faterion a nodwyd yn cael eu trin yn briodol a'u rhannu er mwyn eu hatal rhag digwydd eto. **Rhaid i uwch-reolwyr adolygu archwiliadau clinigol yn rheolaidd fel bod unrhyw broblemau'n cael eu nodi a chyfleoedd i wella ansawdd yn cael eu rhannu.**

Yn ystod ein harolygiad o'r uned, gwelsom dair enghraifft o risgiau posibl i ddiogelwch y cleifion yn un o goridorau'r uned:

- Roedd cynfas gwely wedi cael ei gadael yn y bath gwag yn yr ystafell ymolchi gymunedol a allai fod yn risg i gleifion o ran clymau
- Roedd poteli plastig o nwyddau ymolchi wedi cael eu gadael allan yn yr un ystafell ymolchi a allai fod yn risg i gleifion sy'n debygol o hunan-niweidio
- Roedd teclyn codi wedi'i adael yn y coridor a allai fod yn risg i gleifion o ran clymau.

Ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad, gwnaethom ddweud wrth uwch-aelodau o'r staff y dylid symud yr eitemau hyn er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion. Ar ail ddiwrnod ein harolygiad, nodwyd gennym fod y teclyn codi wedi cael ei symud ond bod y gynfas a'r nwyddau ymolchi yn yr un man o hyd. Roedd yn peri pryder nad oedd uwch-aelodau o'r staff wedi ymdrin â difrifoldeb y materion hyn na'r camau unioni gofynnol. Felly, ni chawsom sicrwydd bod y cleifion yn cael eu hamddiffyn yn llawn rhag niwed yn yr uned.

Yn ystod ein harolygiad, nodwyd gennym fod pob claf ar yr uned yn destun arsylwadau therapiwtig a oedd yn amrywio o 'linell gweld' i 'arsylwadau cyffredinol' Gwnaethom edrych ar bedwar cofnod ar gyfer cleifion a oedd yn destun arsylwadau therapiwtig ar yr uned. Gwelsom fod pob un o'r cofnodion arsylwi therapiwtig yn cynnwys llawer o fylchau mawr a oedd yn dangos nad oeddent wedi cael eu diweddarau am gyfnodau estynedig o amser. Roedd yn annerbyniol gweld nad oedd unrhyw un o'r cofnodion arsylwi a welsom wedi cael eu cwblhau'n gywir. Gwelsom ugain enghraifft lle nad oedd unrhyw beth wedi'i ddogfennu yn y cofnodion am gyfnodau o hyd at ddeg awr ar y tro ac ar ddau ddyddiad ym mis Ionawr 2023 roedd cofnod wedi cael ei adael yn hollol wag. Nodwyd gennym hefyd nad oedd enwau na dyddiadau wedi'u nodi ar sawl cofnod arsylwi a bod bylchau yn adran disgrifiadau ymddygiadol y cofnodion. Yn ogystal, nid oedd unrhyw un o'r cofnodion arsylwi wedi cael eu llofnodi gan y Nyrs â Chyfrifoldeb, felly ni chawsom sicrwydd bod trefniadau llywodraethu ar gyfer arsylwadau therapiwtig yn cael eu goruchwyllo'n effeithiol, ac ni welsom dystiolaeth bod y staff yn cwblhau arsylwadau therapiwtig yn unol â'r polisi. Gwnaethom drafod y mater hwn ag uwch-aelodau o'r staff a gadarnhaodd fod archwiliad diweddar gan y bwrdd iechyd wedi canfod nad oedd yr uned yn defnyddio'r dogfennau cywir i gofnodi arsylwadau therapiwtig ond, eto i gyd, roedd y dogfennau anghywir yn cael eu defnyddio o hyd. Gwnaethom drafod y bylchau mawr yn y dogfennau â'r staff a ddywedodd fod y cleifion yn cael eu monitro bob amser ond nad oedd y staff bob amser yn cael digon o amser i gwblhau'r cofnodion yn gywir. Gwnaethom drafod ansawdd gwael y disgrifiadau ymddygiadol â'r staff a ddywedodd nad yw'r ffurflenni papur presennol yn cynnwys digon o le i gofnodi disgrifiadau manwl. Am nad oedd y staff wedi diweddarau cofnodion arsylwi therapiwtig y cleifion i ddangos bod arsylwadau wedi cael eu cynnal, ni allem gael sicrwydd bod y cleifion yn cael eu monitro, eu hamddiffyn a'u diogelu'n llawn ar yr uned.

Yn ystod yr arolygiad, ni chawsom sicrwydd bod digwyddiadau'n cael eu cofnodi, bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal iddynt, eu bod yn cael dadansoddi a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn ymateb iddynt er mwyn dysgu ohonynt. Roedd yr uned yn defnyddio System Gwybodaeth Rheoli Risg Datix i gasglu a rheoli data, uwchgyfeirio pryderon drwy systemau llywodraethu, nodi gwersi i'w dysgu a gwneud gwelliannau. Gwnaethom edrych ar dri digwyddiad agored ar Datix yn

ymwneud â gwallau meddyginiaeth a ddigwyddodd ym mis Tachwedd 2022. Roedd yn bryderus gweld nad oedd unrhyw un o'r cofnodion hyn ar Datix yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwiliad. Roedd y gwallau meddyginiaeth yn ymwneud â meddyginiaethau gwahanol a oedd wedi cael eu rhoi i un claf. Yn y Datix cyntaf, nid oedd llofnod wedi'i gynnwys ar gyfer y feddyginiaeth, felly nid oedd yn glir a oedd y claf wedi cael y feddyginiaeth ai peidio. Roedd yr ail Datix yn ymwneud â rhoi'r feddyginiaeth anghywir i'r claf o'r pecyn anghywir, ac roedd y trydydd Datix yn ymwneud â rhoi meddyginiaeth anghywir i'r un claf dros gyfnod o wythnos. Roedd yn bryderus ac yn annerbyniol nodi nad oedd yr uwch-reolwyr wedi ymchwilio i'r digwyddiadau hyn.

Yn ogystal, gwnaethom edrych ar dair enghraifft o ddigwyddiadau atal cleifion yn gorfforol a oedd wedi cael eu cau ar Datix a gwelsom nad oedd cofnodion unrhyw un o'r digwyddiadau yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwiliad. Felly, ni chawsom sicrwydd bod digwyddiadau atal cleifion yn gorfforol yn cael eu hymchwilio a'u rhannu'n briodol ar lefel uwch, a bod y cleifion a'r staff yn cael cymorth priodol ar ôl digwyddiad. Yn ystod ein trafodaethau ag uwch-aelodau o'r staff, gwnaethant gadarnhau nad ydynt yn llwyr ddeall y broses a'r weithdrefn gywir i'w dilyn er mwyn rheoli digwyddiadau ar Datix ac ymchwilio iddynt yn llwyddiannus yn unol â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Ni welsom dystiolaeth bod yr uwch dîm rheoli wedi gweld nad oedd ymchwiliadau wedi cael eu cynnal i ddigwyddiadau ar Datix ac wedi mynd i'r afael â hynny. Felly, ni chawsom sicrwydd bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal i ddigwyddiadau, eu bod yn cael eu rheoli na'u bod yn destun prosesau craffu effeithiol er mwyn eu hatal rhag digwydd eto ac annog dysgu ar y cyd.

Nodwyd gennym fod lefel gydymffurfiaeth o 79% ymhlith y staff â hyfforddiant ar reoli ymddygiad cadarnhaol a datgysylltu. Nodwyd gennym hefyd nad oedd polisi 'Defnyddio Ymyriadau Corfforol Cyfyngol' y bwrdd iechyd yn gyfredol mwyach. Ni allai'r staff roi data cywir i AGIC ar arferion cyfyngol i ganfod sawl gwaith roedd cleifion wedi cael eu hatal yn gorfforol dros y tri mis diwethaf. Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd manylion am y staff dan sylw a'r hyn a wnaethant drwy gydol y digwyddiad atal yn gorfforol yn cael eu cofnodi fel mater o drefn ar y fersiwn newydd o system Datix. Nid oedd yn bosibl dweud yn gywir a oedd aelodau o'r staff nad oeddent yn cydymffurfio â'u hyfforddiant ar atal yn gorfforol wedi helpu i atal cleifion yn gorfforol yn ystod y cyfnod hwn. Felly, ni chawsom sicrwydd bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn yn llawn rhag niwed yn yr uned.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch y materion hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Fel rhan o'r broses hon, gwnaethom ysgrifennu at y bwrdd iechyd ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder. Ceir rhagor o wybodaeth am y gwelliannau a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd, yn Atodiad B.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod amrywiaeth o drefniadau addas ar waith ar yr uned i atal a rheoli heintiau ond nodwyd gennym fod angen gwneud rhai gwelliannau. Roedd polisïau atal a rheoli heintiau priodol a chyfredol ar waith a oedd yn rhoi arweiniad i'r staff. Gwelsom dystiolaeth o waith glanhau rheolaidd drwy gydol ein harolygiad. Roedd yr holl staff yn gwisgo masgiau wyneb pan fo angen ac roedd cyfleusterau addas ar gael i ynysu cleifion pe bai angen. Fodd bynnag, gwelsom fod angen diweddarau'r amgylchedd gofal yn gyffredinol a gwelsom fod rhai o swyddfeydd y staff yn anhrefnus. **Rydym yn argymhell y dylid tacluso a chynnal a chadw swyddfeydd y staff er mwyn creu amodau gwaith priodol i'r staff.**

Roedd archwiliadau a chyfleusterau hylendid dwylo effeithiol ar waith yn yr uned, ond ni welsom unrhyw aelodau o'r staff yn golchi eu dwylo nac yn defnyddio hylif diheintio dwylo yn ystod yr arolygiad, ac ni welsom unrhyw un yn cynnig hylif diheintio dwylo i'r cleifion nac yn eu hatgoffa i olchi eu dwylo ychwaith. Ni welsom dystiolaeth o unrhyw weipiau diheintio i lanhau ardaloedd ar ôl iddynt gael eu defnyddio. **Rydym yn argymhell y dylid cymryd camau pellach i sicrhau bod y staff a'r cleifion yn cael eu hannog i arfer hylendid da ar yr uned. Rydym yn argymhell hefyd y dylai weipiau diheintio fod ar gael yn hawdd i'r staff eu defnyddio.**

Roedd yn gadarnhaol nodi bod archwiliadau rheolaidd wedi cael eu cwblhau er mwyn cadarnhau bod yr amgylchedd yn lân a sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau'r ysbyty. O ran yr amserlen lanhau, roedd yn braf gweld bod sticeri lliw wedi dechrau cael eu defnyddio i ddangos bod gweithgareddau glanhau wedi cael eu cwblhau. Fodd bynnag, nid oedd yn glir o'r amserlen pryd y cafodd pob gweithgaredd glanhau ei gwblhau na pha weithgareddau glanhau a oedd yn ofynnol bob dydd. **Rydym yn argymhell y dylai proses gael ei rhoi ar waith i sicrhau bod yr holl fanylion perthnasol yn cael eu cofnodi ar yr amserlenni glanhau fel bod y staff yn gwybod pa dasgau y mae angen eu cwblhau ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau bob dydd.**

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethant ddangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a'r broses archwilio sy'n sicrhau bod gofal iechyd yn cael ei ddarparu yn unol â'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, roedd yn bryderus canfod nad oedd rhai uwch-aelodau o'r staff wedi dangos ymwybyddiaeth na goruchwyliaeth o drefniadau llywodraethu'r archwiliadau yn unol â'u cyfrifoldebau goruchwyllo ar yr uned. Felly, ni chawsom sicrwydd bod archwiliadau clinigol yn cael eu hadolygu a'u goruchwyllo, a bod cyfleoedd dysgu yn cael eu nodi er mwyn gwella ansawdd. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob uwch-aelod o'r staff yn deall ei rôl a'i gyfrifoldebau mewn perthynas â llywodraethu archwiliadau. Rhaid i uwch-**

reolwyr adolygu archwiliadau clinigol yn rheolaidd fel bod unrhyw broblemau'n cael eu nodi a chyfleoedd i wella ansawdd yn cael eu rhannu.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom nad oedd y staff yn cydymffurfio â Chod Gwisg y GIG Cymru Gyfan yn gyffredinol. Roedd y staff yn gwisgo cyfuniad o iwniform a dillad personol wrth gyrraedd a gadael y gwaith, gan gynnwys gemwaith a farnis ewinedd sy'n peri risg o ran atal a rheoli heintiau a risg i ddiogelwch. Gwnaethom drafod y mater hwn â'r staff a chawsom gadarnhad bod cyfleusterau newid ar y safle a fyddai'n galluogi'r staff i newid i'w dillad gwaith ac yn ôl i'w dillad personol. Dywedodd y staff nad yw staff y Gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu yn gwisgo iwniform fel arfer am fod hyn yn creu rhwystrau rhwng y staff a'r cleifion. **Rydym yn argymhell y dylid cymryd camau i sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â Chod Gwisg y GIG Cymru Gyfan, a bod yn rhaid i ddillad gwaith fynd i'r afael ag argymhellion lechyd a Diogelwch allweddol.**

Maeth a hydradu

Wrth archwilio nodiadau achosion a chofnodion clinigol gwelsom fod cleifion yn cael eu helpu i ddiwallu eu hanghenion deietegol unigol a'u bod yn cael deietau yn unol â'u hanghenion meddygol. Roedd anghenion maeth a hydradu'r cleifion yn cael eu hasesu, eu cofnodi a'u diwallu yn unigol. Roedd Nyrsys Arbenigol Diabetes a Therapyddion Lleferydd ac Iaith ar gael ar y safle i'r cleifion yn ôl yr angen.

Câi'r cleifion eu cefnogi i ddewis eu bwyd ac roedd diodydd a byrbrydau ar gael iddynt drwy gydol y dydd. Yn ogystal â'r bwyd a ddarperir ar yr uned, gallai'r cleifion brynu a storio bwyd a byrbrydau yng nghegin yr uned. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth o fentrau bwyta'n iach yn y gwasanaeth. Roedd y cleifion yn prynu eu byrbrydau eu hunain ac roeddent yn cynnwys losin, siocled a chreision fel arfer. **Rydym yn argymhell y dylai mentrau bwyta'n iach gael eu rhoi ar waith ar yr uned er budd y cleifion.**

Yn ystod ein harolygiad blaenorol o'r uned yn 2017, nodwyd gennym nad oedd y bwyd yn flasus iawn a dywedwyd wrthym fod cleifion wedi cwyno'n flaenorol am amrywiaeth ac ansawdd y bwyd. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod y bwyd a ddarperir i'r cleifion yn diwallu eu hanghenion maeth sylfaenol ond, unwaith eto, nid oedd yn ymddangos yn flasus iawn nac o ansawdd uchel. Roedd y bwyd poeth a oedd yn cael ei weini i'r cleifion yn cael ei goginio ymlaen llaw yn y prif ysbyty ac yna'i gludo i'r wardiau i'w weini. Roedd y cleifion yn cael bwydlenni ysgrifenedig y diwrnod blaenorol ond nid oedd lluniau o'r prydau a fyddai'n helpu'r cleifion i wneud dewis gwybodus. **Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o'r dewis o fwyd i gleifion a ddarperir yn yr ysbyty, ei ansawdd a'r ffordd y caiff ei baratoi, er mwyn sicrhau ei fod yn flasus ac yn bodloni'r cleifion. Rydym yn argymhell hefyd y dylid darparu lluniau o'r dewisiadau bwyd fel y gall y cleifion weld bwydlen ysgrifenedig sy'n cynnwys lluniau.**

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod polisiau perthnasol, megis Rheoli Meddyginiaethau a Thawelyddu Cyflym, ar gael i'r staff yn electronig ar gyfrifiaduron ond nad oeddent yn gyfredol mwyach.

Yn ystod ein taith o amgylch yr uned, gwelsom ystafell y clinig a nodwyd sawl problem y gwnaethom ofyn i'r staff eu hunioni yn ystod yr arolygiad. Roedd yn rhaid mynd i ystafell y clinig drwy swyddfa'r nyrsys a oedd wedi'i diogelu rhag mynediad anawdurdodedig, ond gwelsom nad oedd drws ystafell y clinig wedi'i gloi, a oedd yn risg i ddiogelwch. Gwelsom ddau silindr ocsigen y tu allan i ddrws ystafell y clinig nad oeddent wedi'u gosod yn sownd yn eu lle ac a oedd, felly, yn peri risg i ddiogelwch. **Rhaid i silindrau ocsigen gael eu gosod yn sownd yn eu lle er mwyn amddiffyn diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr.** Yn ystafell y clinig, nid oedd yr oergell cyffuriau ar glo ac roedd meddyginiaethau ynddi. Roedd nifer o fylchau yng nghofnodlyfrau monitro tymheredd yr oergell a'r ystafell, ac roedd y blwch offer miniog yn llawn ac roedd angen ei gasglu. Gwelwyd bod y cwpwrdd cyffuriau a'r cabinet storio cyffuriau a reolir wedi'u cloi yn ystafell y clinig ond roeddent yn anhrefnus. Roedd y cwpwrdd meddyginiaethau'n orlawn ac yn cynnwys eitemau o feddyginiaethau nad oeddent yn cael eu defnyddio yn ogystal â mwy nag un blwch o'r un feddyginiaeth a oedd wedi cael eu hagog yn ddiangen. Cadarnhaodd y staff nad oedd rhaglen archwilio ffurfiol ar waith a fyddai'n sicrhau bod cyflenwadau digonol o eitemau cyfredol ar gael ac yn atal unrhyw achosion o ddwyn neu golli meddyginiaeth. Gwnaethom dynnu sylw'r staff at y materion hyn a thrafod yr angen i gynnal adolygiad wythnosol o'r meddyginiaethau a gaiff eu storio yn yr uned. Roedd yn gadarnhaol nodi bod staff y ward yn barod i dderbyn ein hargymhellion. **Rydym yn argymhell y dylid rhoi rhaglen gadarn ar waith i oruchwylio trefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau bod ystafell y clinig yn cael ei chynnal a'i chadw'n briodol, bod meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal gan staff cymwysedig.**

Gwnaethom weld sampl o Gofnodion Rhoi Meddyginiaeth a gwelsom enghreifftiau o arferion da mewn perthynas â rhoi meddyginiaethau. Roedd tystiolaeth bod adolygiadau o feddyginiaethau yn cael eu cwblhau'n rheolaidd yn ystod rowndiau ward wythnosol. Gwelsom enghreifftiau o gynlluniau rheoli meddyginiaeth personol a gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi'n briodol. Roedd cofnodion â llofnodion yn cael eu cadw ar gyfer cyffuriau a reolir ac roeddent yn cael eu rhoi'n gywir, yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd pob Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cynnwys ffotograffau o'r cleifion, a oedd yn peri risg bosibl o safbwynt rhoi meddyginiaeth. Roedd yr uned yn defnyddio llawer o staff asiantaeth nad oeddent yn gyfarwydd â'r cleifion, a oedd yn peri risg o wallau meddyginiaeth. **Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd atodi**

ffotograffau o'r cleifion wrth Gofnodion Rhoi Meddyginiaeth er mwyn helpu i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rhoi i'r cleifion cywir.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Ar adeg ein harolygiad, cawsom wybod nad oedd unrhyw adroddiadau Oedolion sy'n Wynebu Risg ar agor ac yn destun ymchwiliad ar yr uned. Roedd gan y bwrdd iechyd bolisiau a phrosesau sefydledig er mwyn helpu i ddiogelu oedolion agored i niwed a gallai'r staff gael gafeael ar y rhain ar y fewnrwyd. Gwelsom lefel uchel o gydymffurfiaeth ymhlith y staff â chysiau diogelu gorfodol. Yn ystod trafodaethau â'r staff, roedd yn braf nodi bod gan yr uned gysylltiad da â Thîm Diogelu'r GIG.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd y cyfarpar dadebru yn cael ei archwilio'n rheolaidd; roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd y gwiriadau hyn wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael ac nad oedd unrhyw ddyddiadau wedi mynd heibio.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau diogelwch cleifion drwy system Datix. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth nad oedd ymchwiliadau wedi'u cynnal i ddigwyddiadau ac ni chawsom sicrwydd bod cleifion a staff yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed

Mynegodd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad bryderon ynghylch diogelwch staff a chleifion ar yr uned. Dywedodd rhai o'r staff wrthym fod dryswch ynghylch rolau a chyfrifoldebau uwch-aelodau o'r staff a oedd yn peri anawsterau o ran darparu gofal a chymorth cyson i'r cleifion. Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd ymchwiliadau priodol wedi cael eu cynnal i rai digwyddiadau blaenorol a oedd wedi arwain at anafiadau i staff yr uned ac nad oedd yr aelodau o staff dan sylw wedi cael unrhyw esboniad. Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd y staff a fu'n rhan o ddigwyddiadau o'r fath wedi cael cymorth nac ôl-ofal digonol gan y gwasanaeth. Yn flaenorol, roedd y lleoliad wedi cynnal cyfarfodydd ymarfer myfyriol wythnosol i'r staff, yn ogystal â sesiynau dadfrifio ar ôl digwyddiad â seicolegydd clinigol. Fodd bynnag, roedd swydd seicolegydd clinigol yr uned yn wag ar y pryd. **Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o ddigwyddiadau sydd wedi arwain at anafiadau i staff, er mwyn sicrhau bod ymchwiliadau wedi cael eu cynnal iddynt a'u bod wedi cael eu cau'n briodol.**

Yn ystod yr arolygiad, mynegodd y staff bryderon bod yr uned yn derbyn claf ychwanegol o bryd i'w gilydd, er ei bod yn llawn. Ar yr adegau hyn, roedd yr ystafell ymwelwyr yn cael ei defnyddio fel ystafell wely ychwanegol, a oedd yn creu mwy o bwysau a risgiau diogelwch i'r staff a'r cleifion. Dywedodd y staff

wrthym nad oedd yr ystafell ymwelwyr yn addas i'w defnyddio fel ystafell wely ac nad oedd yn cynnwys panel gweld ar gyfer arsylwadau therapiwtig, sy'n peri risg i ddiogelwch cleifion. **Rhaid osgoi defnyddio'r ystafell ymwelwyr fel ystafell wely ychwanegol pan fo'r uned yn llawn er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.**

Roedd yn gadarnhaol gweld bod y cynlluniau gofal a thriniaeth a'r cynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol yn bersonol i'r cleifion, yn canolbwyntio arnynt fel unigolion ac yn cynnwys lefel briodol o wybodaeth fanwl i gefnogi gofal cleifion. Roedd gofal iechyd corfforol yn cael ei fonitro a'i gofnodi, ac roedd y tîm amlddisgyblaethol yn cynnal adolygiadau wythnosol er mwyn cynnal adolygiadau mwy ffurfiol o ofal y cleifion. Roedd tystiolaeth o waith cynllunio trefniadau rhyddhau i'w gweld drwy gydol cyfnod cleifion yn yr uned ac roedd yr uned yn cysylltu â chleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau er mwyn darparu cymorth ychwanegol. **I gefnogi cynlluniau gofal a thriniaeth, rydym yn argymhell y dylai proffiliau byr gael eu hatodi wrth ffeiliau'r cleifion er gwybodaeth i'r staff, yn enwedig staff asiantaeth nad ydynt yn gyfarwydd â'r cleifion.**

Gofal diogel a chlinigol effeithiol - Ymddygiadau sy'n herio

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethant ddangos dealltwriaeth o'r ffordd y gallai anghenion iechyd corfforol y cleifion wneud iddynt ymddwyn yn heriol. Roedd cynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol y cleifion yn gynhwysfawr, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cynnwys strategaethau i reoli ymddygiad heriol. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth a welsom i ddangos bod ymgysylltiad therapiwtig mewn perthynas ag arferion cyfyngol neu atal ymddygiad cadarnhaol yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r gofal a'r driniaeth a roddir i'r cleifion. Cafwyd amlinelliad cywir gan y staff o'r broses i'w dilyn pan fo cleifion yn ymddwyn yn heriol neu pan fo angen defnyddio arferion cyfyngol. Fodd bynnag, ni chawsom sicrwydd bod digwyddiadau o'r fath yn cael eu cofnodi'n gywir, eu goruchwyllo, eu hymchwilio na'u harchwilio er mwyn eu hatal rhag digwydd eto na bod gwersi i'w dysgu yn cael eu rhannu, fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Yn ystod ein trafodaethau â staff y ward a'r uwch-reolwyr, cawsom enghreifftiau o sut roeddent yn adolygu'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu ar y wardiau ac yn y bwrdd iechyd yn fwy cyffredinol. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd trosglwyddo shift, cyfarfodydd staff dyddiol, cyfarfodydd wythnosol y tîm amlddisgyblaethol a chyfarfodydd ansawdd a diogelwch cleifion misol.

Roedd yn gadarnhaol dysgu bod yr Uwch Dîm Arwain yn darparu hyfforddiant ychwanegol i wella datblygiad gyrfa'r staff er mwyn cadw nyrsys cymwysedig ar yr uned. Cawsom wybod bod dau aelod o'r staff yn cwblhau Cwrs Uwch-ymarferydd

Nyrsio ar yr uned a bod dau aelod arall o'r staff wedi cael eu dewis i gwblhau'r cwrs yn y dyfodol.

Cadw cofnodion

Roedd yn gadarnhaol nodi bod trefniadau diogel ar waith ar gyfer storio ffeiliau er mwyn atal mynediad anawdurdodedig ac achosion o dorri cyfrinachedd. Yn swyddfa'r nyrsys, roedd bwrdd statws cleifion yn arddangos gwybodaeth gynhwysfawr a chyfrinachol am bob claf a oedd yn cael gofal ar yr uned. Roedd y wybodaeth yn cael ei chuddio pan nad oedd yn cael ei defnyddio. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn rhoi pwyslais ar ddiogelu cyfrinachedd y cleifion.

Roedd yr ysbyty wedi mabwysiadu system cofnodion iechyd electronig newydd yn ddiweddar a oedd yn golygu bod cynlluniau gofal a thriniaeth y cleifion yn cael eu cofnodi ar ddau fformat, ond roedd yn braf gweld eu bod yn hawdd eu cyrchu. Gwelwyd bod unrhyw wybodaeth goll neu anghyfredol yn y dogfennau ysgrifenedig wedi'i diweddarau'n gywir ar y system newydd, sef System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Roedd y cofnodion a welsom yn gynhwysfawr ac roedd adnoddau asesu cydnabyddedig yn cael eu defnyddio i fonitro iechyd meddwl a chorfforol. Cawsom sicrwydd y bydd y system cofnodion iechyd newydd yn gwella arferion gwaith yn y dyfodol. Mae hyn yn dangos bod y bwrdd iechyd yn gweithio i roi systemau a phrosesau effeithiol ar waith a fydd yn gwella ansawdd a pherfformiad yn y tymor hir.

Yn ystod yr arolygiad, clywsom fod salwch ymhlith staff gweinyddol yr uned yn cynyddu llwyth gwaith y staff ac yn rhoi mwy o bwysau arnynt. Clywsom hefyd nad oedd gan yr uned argraffydd a oedd yn gweithio am ddau fis cyn yr arolygiad. **Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o staff cyflenwi ar gael i gyflawni gwaith gweinyddol ar yr uned. Rydym yn argymhell hefyd fod yn rhaid i'r uned gael argraffydd sy'n gweithio er mwyn helpu'r staff â'u dyletswyddau.**

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio gofal a monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Ochr yn ochr â'n hadolygiad o ddogfennau cadw statudol, gwnaethom ystyried y ffordd roedd Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn cael ei gymhwyso. Gwnaethom edrych ar gofnodion tri chlaf er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd hyn yn cynnwys dau glaf a oedd wedi'u cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, ac un claf a oedd yn destun awdurdodiad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Ar y cyfan, gwelsom fod cofnodion y Ddeddf Iechyd Meddwl yn fwy trefnus ers ein harolygiad blaenorol o'r lleoliad. Roedd y ffeiliau wedi'u rhannu'n adrannau ac felly gellid dod o hyd i ffurflenni statudol yn hawdd a'u darllen yn eu cyd-destun. Fodd bynnag, yn ffeiliau'r Ddeddf Iechyd Meddwl, roedd rhai fersiynau dyblyg neu anghyfredol o ffurflenni cadw statudol y dylid eu tynnu

allan er mwyn osgoi unrhyw ddryswch. **Rydym yn argymhell y dylai cofnodion cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl gael eu hadolygu er mwyn sicrhau nad ydynt yn cynnwys dogfennau diangen.**

Gwelsom fod mân hepgoriadau yn nogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Gwelwyd bod llofnod yr Ymarferydd Iechyd Meddwl Cymeradwy ar goll o un adroddiad proffesiynol. Nid oedd cynlluniau gofal a thriniaeth y ddau glaf a oedd wedi'u cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cynnwys llofnodion y cleifion hynny. Roedd ffurflenni Absenoldeb Adran 17 yn cael eu llenwi'n gywir ar y cyfan, ond nodwyd rhai gwallau gan gynnwys blychau heb eu ticio a manylion cyswllt anghyflawn ar gyfer y Berthynas Agosaf. **Rhaid cymryd camau i sicrhau bod dogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu cwblhau'n llawn ac yn gywir.**

Ar ôl edrych ar ddogfennau trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, gwelsom fod y gwaith papur awdurdodi statudol ar goll o ffeil y claf. Gwnaethom dynnu sylw'r staff at y mater a gyflwynodd y ddogfen awdurdodi yn nes ymlaen, ond roedd y ffurflen yn cynnwys gwallau sylweddol. Roedd y ffurflen yn nodi'n anghywir mai bwrdd iechyd arall, nid Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, oedd y corff goruchwylio. Cafodd yr awdurdodiad brys ei gymeradwyo am gyfnod o saith diwrnod ym mis Hydref 2022, a daeth i ben ar ddiwedd y cyfnod hwnnw ond nid oedd y ffeil yn cynnwys mwy o ddogfennau awdurdodi ar gyfer trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid. Gwnaethom drafod y mater hwn yn uniongyrchol â tîm trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid y bwrdd iechyd, a ddywedodd fod y ffurflen wallus a gyflwynodd yr uned i'r tîm yn wreiddiol wedi cael ei gwrthod a'i dychwelyd i'r uned i'w chywiro a'i hailgyflwyno. Yn ystod yr arolygiad, dywedodd y tîm trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid nad oedd yr uned wedi dychwelyd y dogfennau cywir i wneud cais i ymestyn awdurdodiad y claf ymhellach a oedd yn golygu bod yr awdurdodiad wedi dirwyn i ben. Yn dilyn yr arolygiad, cawsom wybod yn ddiweddarach fod y dogfennau wedi cael eu diwygio'n gywir a'u hanfon at y tîm trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ac nad oedd yr awdurdodiad, felly, wedi dirwyn i ben.

Gwnaethom drafod y materion hyn â'r staff a nodwyd mai 63 y cant oedd lefel gydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant anorfodol ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Dywedwyd wrthym y bydd mwy o hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael ei drefnu ar gyfer y staff. **Rydym yn argymhell y dylai staff yr uned gael mwy o hyfforddiant, cyfarwyddyd a chymorth llywodraethu mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a threfniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a bod dogfennau'n cael eu cwblhau a'u cyflwyno'n gywir.**

Yn 2017, argymhellodd AGIC y dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod copïau o God Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Cod) ar gael ar yr uned a chawsom

sicrwydd y byddai hynny'n digwydd. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, ni welsom gopïau o'r Cod ar yr uned ac ni allai'r staff roi esboniad. **Rydym yn argymhell unwaith eto y dylai copïau o God Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Cod) fod ar gael ar yr uned.**

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Cadarnhaodd y staff fod strwythur llywodraethu ar waith yn nhermau gweithgareddau a chyfarfodydd i drafod digwyddiadau, canfyddiadau a materion sy'n ymwneud â gofal cleifion. Roedd gan yr uned reolwr a dirprwy wedi'u cefnogi gan dîm ward ac amlddisgyblaethol ymroddedig. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad fod aelodau'r tîm yn cefnogi ei gilydd yn dda a'u bod yn rhoi'r cleifion wrth wraidd eu dyletswyddau. Roedd yn gadarnhaol bod y staff i gyd, drwy gydol yr arolygiad, yn fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Fodd bynnag, ni chawsom sicrwydd bod strwythur llywodraethu clir ar gyfer yr uned a oedd yn cynnig cymorth gweithredol a llinellau rheoli ac atebolrwydd clir i staff y ward. Yn ystod ein harolygiad, roedd yn bryderus gweld nad oedd y trefniadau i oruchwylio'r strwythur llywodraethu yn ddigon cryf yn gyffredinol ar yr uned mewn perthynas ag agweddau ar ddiogelwch cleifion, cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol, arsylwadau therapiwtig ac ymchwiliadau Datix. Ni chawsom sicrwydd bod y systemau a'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn cefnogi gwelliannau parhaus ac yn rhannu gwersi i'w dysgu o ddigwyddiadau a digwyddiadau negyddol difrifol.

Yn ystod ein trafodaethau â staff yr uned, gwnaethom ddweud wrthym fod cymorth gan reolwyr ar lefel yr uned yn ddigonol ond bod rhywfaint o ddryswch ynghylch rolau a chyfrifoldebau uwch-aelodau o staff yr uned. Gwnaethom siarad hefyd â staff goruchwylio a gadarnhaodd nad oeddent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn ac yr hoffent gael mwy o gymorth. Yn ogystal, dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym eu bod yn teimlo nad oedd yr uwch dîm rheoli yn weledol iawn ac mai prin oedd ei gyfraniad a'i gymorth. Yn ystod ein harolygiad, roedd yn ymddangos nad oedd rhai aelodau o'r staff wedi cael unrhyw gyfarwyddyd gan uwch-aelodau o'r staff a'u bod yn gorfod amser am gyfnodau hir heb wybod beth y dylent ei wneud. Cawsom wybod bod proses sefydlu ar waith ar gyfer staff newydd ond dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym nad oeddent wedi dilyn proses sefydlu ar yr uned. Felly, ni chawsom sicrwydd bod proses reoli a goruchwylio effeithiol ar waith ar yr uned a oedd yn rhoi arweiniad clir i'r staff.

Rydym yn argymhell bod yn rhaid i'r bwrdd iechyd ymgysylltu'n llawn â staff y ward i gryfhau systemau rheoli ac arwain er mwyn llywodraethu a goruchwylio'r uned yn gadarn. Rhaid i'r bwrdd iechyd nodi pa hyfforddiant sydd ei angen ar y staff a meysydd y mae angen eu gwella er mwyn sicrhau bod yr uned yn cael ei rheoli'n effeithiol. Dylai pob aelod o'r staff ddilyn proses sefydlu er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ar yr uned.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r staff am wybodaeth am eu lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Roedd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn cael ei gwblhau ar y system Cofnodion Staff Electronig. Roedd yn bryderus nodi na allai'r staff goruchwyllo roi gwybodaeth am lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ac na allent chwilio'r system hyfforddi er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth. Dywedwyd wrthym hefyd fod rhai cyrsiau hyfforddiant yn cael eu cofnodi mewn ffyrdd eraill a oedd yn golygu ei bod yn anodd cael darlun cyffredinol o gydymffurfiaeth â hyfforddiant. Felly, ni chawsom sicrwydd bod lefelau hyfforddiant gorfodol y staff yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u harchwilio ar lefel oruchwyllo, er mwyn sicrhau bod y staff yn bodloni'r gofynion proffesiynol diweddaraf a bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ofalu am y grŵp cleifion.

Cawsom drosolwg o gydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant a oedd yn dangos lefel gydymffurfiaeth o 85% â hyfforddiant gorfodol yn gyffredinol. Fodd bynnag, 75 y cant oedd y lefel gydymffurfiaeth â Symud a Chodi a Chario Lefel 1 a 53 y cant oedd y lefel gydymffurfiaeth â Symud a Chodi a Chario Lefel 2. Saith deg pump y cant oedd y lefel gydymffurfiaeth â chysiau Diogelwch Tân a Dadebru. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad nad ydynt yn cael amser gwarchodedig i gyflawni hyfforddiant ar-lein sy'n golygu ei bod yn anodd iddynt gwblhau eu cyrsiau hyfforddiant gorfodol.

Rydym yn argymhell bod yn rhaid i'r bwrdd iechyd roi rhaglen gadarn ar waith i oruchwyllo trefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau bod hyfforddiant gorfodol yn cael ei gwblhau a'i fonitro'n rheolaidd a bod staff yn cael eu cefnogi i ymgymryd â'r hyfforddiant. Dylai'r staff goruchwyllo gael hyfforddiant i ddefnyddio'r system matrices hyfforddiant fel y gallant weld cofnodion hyfforddiant staff a goruchwyllo hyfforddiant staff. Rydym yn argymhell hefyd y dylid adolygu'r system matrices hyfforddiant bresennol gyda'r nod o gofnodi cydymffurfiaeth pob aelod o'r staff â hyfforddiant ar un system er mwyn gallu llywodraethu a monitro'r sefyllfa yn hwylus.

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym nad oedd nifer o bolisiau neu weithdrefnau'r bwrdd iechyd yn gyfredol mwyach neu fod angen eu hadolygu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Polisi Rheoli Meddyginiaethau (2021)
- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (2021)
- Gweithio i Wella (2019)
- Polisi Defnyddio Ymyriadau Corfforol Cyfyngol (2019)
- Arweiniad i Staff ar Fynediad i Gofnodion Iechyd (2021)
- Polisi Sefydlu Corfforaethol (2016)

- Gweithdrefn Weithredu Safonol - Polisi Cyfarwyddyd Cyffredinol ar Ddiogelwch Covid yn y Gweithle (2021)
- Polisi Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (2018).

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu unrhyw bolisiâu nad ydynt yn gyfredol mwyach er mwyn sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau yn cael eu diweddarau a'u bod yn rhoi arweiniad clir i'r staff.

Y Gweithlu

Roedd cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau bod digon o staff ar ddyletswydd i gefnogi diogelwch y cleifion ar yr uned. Roedd yr uned yn dibynnu ar staff banc ac asiantaeth yn ôl y gofyn. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym fod yr uned yn aml yn brin o staff a oedd yn golygu nad oedd digon o amser i ofalu am y cleifion. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod y defnydd helaeth o staff banc ac asiantaeth yn creu heriau i'r uned, am fod staff asiantaeth yn aml yn anghyfarwydd â'r cleifion a'u hanghenion cymhleth. Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym eu bod yn ceisio sicrhau cysondeb o ran staff er budd y cleifion drwy ddefnyddio staff rheolaidd a staff banc gymaint â phosibl. Roedd y bwrdd iechyd yn cynnig cymhellion ariannol i staff banc a staff rheolaidd a oedd yn dymuno gweithio shifftiau ychwanegol ar yr uned. Roedd yr uned wedi rhoi prosesau ar waith i gadw a datblygu staff rheolaidd drwy ddarparu hyfforddiant ychwanegol a chreu swyddi ychwanegol ar eu cyfer yn yr uned. Roedd yr uwch dîm rheoli hefyd yn defnyddio patrwm shifft deuddeg awr ar yr uned a fyddai'n gwella lefelau staffio. **Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd barhau i gymryd camau i leihau'r defnydd helaeth a wneir o staff banc ac asiantaeth ar yr uned.**

Ar adeg ein harolygiad, roedd y lefelau staffio'n briodol ond roedd trefniadau ar waith i recriwtio staff i nifer bach o swyddi gwag, gan gynnwys swyddi gwag ar gyfer seicolegydd clinigol a therapydd galwedigaethol. Dywedwyd wrthym fod tîm cefnogol o staff rheolaidd yn gweithio ar yr uned ond bod sawl aelod o'r staff wedi gadael eu swyddi yn ddiweddar er mwyn camu ymlaen yn eu gyrfa. **Dylai'r bwrdd iechyd barhau i ganolbwyntio ar recriwtio staff parhaol i swyddi gwag ar yr uned.**

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd teclyn codi wedi cael ei adael yn y coridor cymunedol	Gallai hyn beri risg i gleifion o ran clymau	Gwnaethom ddweud wrth y staff bod angen symud y teclyn codi er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion	Symudwyd y teclyn codi yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty Anableddau Dysgu

Dyddiad yr arolygiad: 31 Ionawr a 1 Chwefror 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol				
Yn ystod yr arolygiad, ni chafodd AGIC sicrwydd bod iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion, y staff ac ymwelwyr uned yn cael eu hyrwyddo a'u hamddiffyn yn yr uned. Yn ogystal, nid oedd risgiau posibl o niwed yn cael eu nodi, eu monitro na, lle bo hynny'n bosibl, eu lleihau neu'u hatal. Mae angen i'r bwrdd iechyd weithredu ar unwaith ar y materion canlynol:				
Yn ystod ein taith o amgylch yr uned, gwelsom dair enghraifft o risgiau posibl i ddiogelwch y cleifion yn un o goridorau'r uned: <ul style="list-style-type: none"> Roedd cynfas gwely wedi cael ei gadael yn y bath gwag yn yr ystafell ymolchi gymunedol a allai fod yn risg i gleifion o ran clymau 	Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Mae'r gynfas gwely a'r nwyddau ymolchi wedi cael eu symud.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau - 01/02/23
		Atgoffwyd y staff o bwysigrwydd symud eitemau o ardal y ward yn amserol. Mae taflen tasgau dyddiol wedi cael ei datblygu sy'n cynnwys 'cerdded drwy'r	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau - 06/02/23

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> • Roedd poteli plastig o nwyddau ymolchi wedi cael eu gadael allan yn yr un ystafell ymolchi a allai fod yn risg i gleifion sy'n debygol o hunan-niweidio • Roedd teclyn codi wedi'i adael yng nghoridor Cefn Gwlad a allai fod yn risg i gleifion o ran clymau. <p>Ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad, gwnaethom ddweud wrth y staff y dylid symud yr eitemau hyn er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion. Ar ail ddiwrnod ein harolygiad, gwelsom fod y teclyn codi wedi cael ei symud ond bod y gyfnas a'r nwyddau ymolchi yn yr un man o hyd. Nid oedd y staff wedi ymdrin â difrifoldeb y materion hyn na'r camau unioni gofynnol. Felly, ni chawsom sicrwydd bod y cleifion yn cael eu hamddiffyn yn llawn rhag niwed yn yr uned.</p>		<p>amgylchedd' er mwyn sicrhau bod y staff yn effro i risgiau fel diffyg leininau biniau, bod nwyddau ymolchi yn cael eu cadw dan glo ac ati. Mae staff asiantaeth/banc hefyd yn cael gwybod am risgiau o'r fath ar ddechrau'r shift fel bod pawb yn ymwybodol ohonynt.</p> <p>Caiff y teclyn codi ei storio bellach yn yr ystafell ymolchi â chymorth (dyma ble mae'r teclyn codi yn cael ei storio fel arfer ond roedd wedi cael ei ddefnyddio'n ddiweddar ac nid oedd wedi cael ei ddychwelyd) a gaiff ei chadw ar glo oni bai ei bod yn cael ei defnyddio ac mae'r staff yn helpu'r defnyddwyr gwasanaeth bob amser pan fyddant yn yr ardal hon. (Mae'r daflen tasgau dyddiol yn cyfeirio at hyn hefyd).</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Wedi'i gwblhau - 01/02/23</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod mesurau addas ac effeithiol ar waith i sicrhau bod risgiau posibl i ddiogelwch y cleifion yn cael eu nodi, eu hasesu a'u lliniaru.</p>		<p>Mae cerdded drwy'r amgylchedd wedi cael ei ychwanegu at y gwiriadau dyddiol sy'n cynnwys proses uwchgyfeirio, llofnod a dyddiad.</p>	<p>Rheolwr y Ward/ Nyrs â Chyfrifoldeb</p>	<p>Wedi'i gwblhau - 07/02/23</p>
<p>Yn ystod ein harolygiad, nodwyd gennym fod pob claf ar yr uned yn destun arsylwadau therapiwtig sy'n amrywio o 'linell gweld' i 'arsylwadau cyffredinol'. Gwnaethom edrych ar bedwar cofnod ar gyfer cleifion a oedd yn destun arsylwadau therapiwtig ar yr uned. Gwelsom fod llawer o fylchau mawr yn y pedwar cofnod a oedd yn dangos nad oeddent wedi cael eu diweddarau am gyfnodau estynedig o amser. Gwelsom nad oedd un cofnod wedi cael ei ddiweddarau am dros chwe awr ac roedd un arall yn hollol wag. Am nad oedd y staff wedi diweddarau cofnodion arsylwi therapiwtig y cleifion i ddangos bod arsylwadau wedi cael eu cynnal, ni allem gael</p>	<p>Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p>	<p>Mae taenlen wedi cael ei datblygu i gofnodi ar ba ddyddiad y mae'r staff i gyd wedi cwblhau'r cymwyseddau a nodir ym mholisi Ymgysylltu ac Arsylwi Therapiwtig yr Is-adran. Caiff y rhain eu cymeradwyo gan Reolwr y Ward/Dirprwy Reolwr y Ward</p> <p>Mae'r daflen drosglwyddo hefyd yn cynnwys negeseuon atgoffa</p>	<p>Rheolwr y Ward a Dirprwy Reolwr y Ward</p>	<p>Erbyn diwedd mis Chwefror 2023</p>
		<p>Y Nyrsys Clinigol Band 6 fydd yn gyfrifol am hyn ac yn sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn unol â'r polisi.</p>	<p>Nyrsys Clinigol</p>	<p>Parhaus o fis Mawrth 2023</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>sicrwydd bod y cleifion yn cael eu monitro a'u hamddiffyn a'u diogelu'n llawn ar yr uned.</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod arsylwadau cleifion therapiwtig cyson yn cael eu cynnal gan y staff fel y pennir • Bod arsylwadau therapiwtig yn cael eu cofnodi a'u dogfennu'n briodol • Bod y staff yn cael mwy o hyfforddiant ac arweiniad yn y maes hwn. 		<p>Mae prosesau llywodraethu ar y ward wedi cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod Rheolwr y Ward/Dirprwy Reolwr y Ward yn cynnal hapwiriadau bob wythnos; gan sicrhau bod unrhyw broblemau'n cael eu trin yn amserol a'u huwchgyfeirio at yr Uwch-nyrs/tîm y Gyfarwyddiaeth.</p>	<p>Uwch-nyrs, Rheolwr y Ward</p>	<p>17/02/23</p>
		<p>Rhaid i'r Nyrs â Chyfrifoldeb wirio a llofnodi pob siart arsylwi ar ddiwedd pob shift i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.</p>	<p>Nyrs â Chyfrifoldeb/ Rheolwr y Ward</p>	<p>Wedi'i gwblhau - 07/02/23</p>
		<p>Mae hyfforddiant wyneb yn wyneb ar y polisi Ymgysylltu ac Arsylwi Therapiwtig yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y polisi.</p>	<p>Rheolwr y Ward/Uwch-nyrs</p>	<p>Erbyn mis Ebrill 2023</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Gwnaethom edrych ar dri digwyddiad agored ar Datix yn ymwneud â gwallau meddyginiaeth a ddigwyddodd ym mis Tachwedd 2022. Gwnaethom edrych hefyd ar dair enghraifft o ddigwyddiadau blaenorol ar Datix yn ymwneud ag atal yn gorfforol a oedd wedi cael eu cau.</p> <p>Gwelsom nad oedd y cofnodion Datix electronig ar gyfer y chwe digwyddiad yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwiliad. Yn ystod ein trafodaethau ag uwch-aelodau o'r staff, cadarnhawyd nad oedd y staff yn llwyr ddeall y broses a'r weithdrefn gywir i'w dilyn er mwyn rheoli digwyddiadau ar Datix ac ymchwilio iddynt yn llwyddiannus yn unol â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Felly, ni chawsom sicrwydd bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal i ddigwyddiadau, eu bod yn cael eu rheoli na'u bod yn destun prosesau craffu effeithiol er mwyn eu hatal rhag digwydd eto ac annog dysgu ar y cyd.</p>	Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Edrychodd yr Uwch-nyrs ar y gwallau hyn ar unwaith. Siaradwyd â'r staff dan sylw. Mae hyn wedi cael ei gofnodi a'i ddiweddarau ar Datix.	Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau - 02/02/23
		Mae gweithdrefnau bellach ar waith i sicrhau bod adolygu Datix yn un o ddyletswyddau parhaus Rheolwr y Ward/Dirprwy Reolwr y Ward fel bod Datix yn cael ei adolygu'n amserol. Caiff hyn ei fonitro gan yr Uwch-nyrs bob pythefnos.	Rheolwr y Ward a'r Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau
		Bydd y digwyddiadau a gofnodir ar system Datix yn cael eu hadolygu yng nghyfarfodydd wythnosol y rheolwyr. Yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn mae rheolwr y ward, arweinwyr proffesiynol, yr uwch-nyrs, y rheolwr gwella gwasanaethau a'r	Cyfarwyddwr Clinigol	14/02/2023

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau cadarn ar waith i ymchwilio i bob digwyddiad, ei reoli a chraffu arno'n effeithiol.</p>		<p>cyfarwyddwr clinigol. Caiff y cofnodion ar Datix eu hadolygu yn y cyfarfod hwn a'u cau'n briodol.</p>		
		<p>Mae dyddiadau hyfforddi ar gyfer adolygu/ymchwilio i ddigwyddiadau Datix wedi cael eu trefnu ar gyfer y rheolwyr ym mis Chwefror (15 a 23 Chwefror).</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Diwedd mis Chwefror 2023</p>
<p>Yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym fod lefel gydymffurfiaeth o 79% ymhlith y staff â hyfforddiant ar reoli ymddygiad cadarnhaol a datgysylltu. Nodwyd gennym hefyd nad oedd polisi 'Defnyddio Ymyriadau Corfforol Cyfyngol' y bwrdd iechyd yn gyfredol mwyach. Ni allai'r staff roi data cywir i AGIC ar arferion cyfyngol i ganfod sawl gwaith</p>	<p>Safon 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol</p>	<p>Mae'r tîm lechyd a Diogelwch wedi adolygu'r Polisi Ymyriadau Corfforol Cyfyngol. Mae disgwyl iddo gael ei gyflwyno i Bwyllgor lechyd a Diogelwch y Bwrdd lechyd ar 9 Chwefror. Yn dilyn cyfnod ymgynghori, rhagwelir y bydd ar waith ym mis Mawrth/Ebrill 2023.</p>	<p>Pennaeth lechyd, Diogelwch a Thân</p>	<p>Ebrill 2023</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>roedd cleifion wedi cael eu hatal yn gorfforol dros y tri mis diwethaf. Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd manylion am y staff dan sylw a'r hyn a wnaethant drwy gydol y digwyddiad atal yn gorfforol yn cael eu cofnodi fel mater o drefn.</p> <p>Nid oedd yn bosibl dweud yn gywir a oedd aelodau o'r staff nad oeddent yn cydymffurfio â'u hyfforddiant ar atal yn gorfforol wedi helpu i atal cleifion yn gorfforol yn ystod y cyfnod hwn. Felly, ni chawsom sicrwydd bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn yn llawn rhag niwed yn yr uned.</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynghylch sut y bydd yn rhoi prosesau cadarn ar waith i sicrhau bod digwyddiadau atal yn gorfforol yn cael eu cofnodi, bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal iddynt, eu bod yn cael eu rheoli a'u bod yn destun prosesau craffu effeithiol er mwyn eu hatal rhag digwydd eto ac annog dysgu ar y cyd. Rhaid cymryd camau i sicrhau bod yr holl fanylion perthnasol am ddigwyddiadau atal yn gorfforol yn cael eu casglu a'u cofnodi gan</p>		<p>Mae trefniadau wedi cael eu gwneud i bob aelod o'r staff nad ydynt yn cydymffurfio â'r hyfforddiant ar reoli ymddygiad cadarnhaol gael hyfforddiant cyn diwedd mis Ebrill 2023. Mae dyddiadau hyfforddiant blynyddol ar gyfer y staff i gyd wedi cael eu dyrannu ar gyfer 2023.</p> <p>Roedd digwyddiadau atal yn gorfforol wedi cael eu cofnodi ar system Datix. Fodd bynnag, mae'r rhain wedi cael eu cofnodi yn y gorffennol o dan y categori 'digwyddiad ymddygiadol' yn unig. Er mwyn sicrhau bod data cyson a chywir yn cael eu casglu, atgoffwyd y staff i gofnodi 'atal yn gorfforol' fel yr 'is-gategori' fel bod rhan gywir y templed yn cael ei llenwi.</p> <p>Mae'r ward wedi cael canllaw ar sut i wneud hyn. Caiff y rhain eu</p>	<p>Uwch-nyrs/Rheolwr y Ward</p> <p>Uwch-nyrs/Rheolwr y Ward</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>14/02/2023</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gynnwys pob aelod o staff dan sylw a'r hyn a wnaethant drwy gydol y digwyddiad.		hadolygu yng nghyfarfodydd wythnosol y rheolwyr fel y nodir uchod.		

Camau gweithredu ychwanegol a nodwyd gan BIPAB i fynd i'r afael â'r effaith ar lywodraethu ac arweinyddiaeth

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Atgyfnerthu sicrwydd a systemau arwain a rheoli</p> <p>Atgyfnerthu trefniadau llywodraethu ansawdd a sicrwydd</p>	<p>Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</p>	<p>Hyfforddiant wedi'i deilwra a goruchwyliaeth i reolwyr ac arweinwyr.</p> <p>Sicrhau bod uwch-arweinwyr yn fwy gweladwy.</p> <p>Cerdded drwy'r amgylchedd gan ganolbwyntio ar sicrwydd / diogelwch er mwyn cymryd camau rhagweithiol i gefnogi ymgysylltiad staff a nodi meysydd i'w gwella ymhellach / materion diogelwch.</p>	<p>Uwch Dîm Rheoli Iechyd Meddwl/Anabledau Dysgu</p> <p>Tîm Nyrsio Corfforaethol</p> <p>Swyddog Gweithredol Clinigol Iechyd Meddwl/Anabledau Dysgu</p>	<p>Wedi dechrau ac yn barhaus</p>
		<p>Trosolwg a sicrwydd ychwanegol i ddarparu mwy o gymorth a nodi rhagor o welliannau.</p> <p>Cynllun gweithredu i'w ddatblygu a'i oruchwylio gan grŵp datblygu'r uned ac uwch-reolwyr.</p>	<p>Uwch Dîm Rheoli Iechyd Meddwl/Anabledau Dysgu</p> <p>Tîm Nyrsio Corfforaethol</p> <p>Swyddog Gweithredol Clinigol Iechyd Meddwl/Anabledau Dysgu</p>	<p>Wedi dechrau ac yn barhaus</p>

		Y Tîm Atal a Rheoli Heintiau i gynnal ymweliad arsylwi er mwyn rhoi cymorth ac addysgu. Adolygu canlyniadau archwiliadau blaenorol er mwyn nodi tueddiadau a sicrhau bod camau wedi cael eu cymryd mewn perthynas â phob maes sy'n peri pryder.	Tîm Atal a Rheoli Heintiau	Erbyn 24/02/23
		Sicrhau bod y staff yn gwybod sut i godi pryderon a rhoi cymorth i'r tîm arwain yn y ward ac uwchgyfeirio'n briodol.	Uwch-dîm Arwain Nyrsio	Diwedd mis Chwefror 2023
		Proses ragweithiol i adolygu amgylchedd wardiau drwy'r Is-adran i gyd, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Iechyd a Diogelwch 	Pennaeth Iechyd, Diogelwch a Tân	Erbyn 11 Mawrth 2023
		<ul style="list-style-type: none"> • Cyfleusterau 	Rheolwr Gwella Gwasanaethau - Cyfleusterau	Erbyn 11 Mawrth 2023

		<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau ymgysylltiad â'r tîm gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn sicrhau bod gweithgareddau priodol ac ystyrlon yn cael eu cynnig i ddefnyddwyr y gwasanaeth. 	Pennaeth Nyrsio - Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Erbyn 11 Mawrth 2023
--	--	--	--	----------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Michelle Forkings

Teitl swydd: Nyrs Is-adrannol, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Dyddiad: 15.2.23

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Anableddau Dysgu

Dyddiad yr arolygiad: 31 Ionawr a 01 Chwefror 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylid gwneud gwaith addurno er mwyn gwneud ardaloedd cymunedol yr uned yn amgylchedd therapiwtig mwy dymunol i'r cleifion.	Cadw'n iach	<p>Cafwyd cyfarfod â darparwr dodrefn ar 24/03/23. Caiff papur ei ddatblygu a'i gyflwyno i'r Bwrdd lechyd yn ymwneud â chyllid ar gyfer y dodrefn newydd.</p> <p>Cerddodd Bwrdd Amgylchedd yr Ysbyty o amgylch yr uned gyda'r Nyrs Arwain, ynghyd â chynrychiolydd o'r tîm gwaith ac ystadau, ar 20/03/23. Nodwyd bod angen atgyweirio lloriau a waliau a pheintio. Gofynnwyd am gostau ar gyfer y gwaith sydd ei angen.</p>	Nyrs Arwain, Anableddau Dysgu	Mehefin 2023

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylid adolygu tymheredd amgylchol yr uned er mwyn sicrhau bod y staff, y cleifion ac ymwelwyr yn gysurus.	Cadw'n lach	Mae'r tîm Gwaith ac Ystadau wedi gosod boeler a thanciau dŵr newydd. Mae'r system wresogi bellach yn gweithio'n iawn ac mae tymheredd y ward yn briodol bob amser.	Goruchwylydd, Gwaith ac Ystadau	Wedi'i gwblhau
		Caiff tymheredd ystafelloedd ei wirio'n ddyddiol er mwyn sicrhau bod tymheredd yr uned yn parhau o fewn y canllawiau a argymhellir.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau
Dylid cymryd camau i wella diogelwch y decin er budd y cleifion, y staff ac ymwelwyr.	Cadw'n lach	Gwnaed cais i'r tîm Gwaith ac Ystadau asesu'r decin a gwneud unrhyw waith unioni sydd ei angen.	Goruchwylydd, Gwaith ac Ystadau	Medi 2023
Dylid cymryd camau i leihau sŵn ar yr uned er cysur y cleifion, y staff ac ymwelwyr.	Cadw'n lach	Cafwyd cyfarfod â darparwr dodrefn ar 24/03/23. Caiff papur ei ddatblygu i'w gymeradwyo gan yr Is-adran/Bwrdd lechyd i ariannu dodrefn newydd a theils acwstig.	Nyrs Arwain, Anableddau Dysgu	Mehefin 2023
		Mae'r tîm Gwaith ac Ystadau wedi gosod colynnau cau'n dawel ar y drysau er mwyn lleihau sŵn.		Wedi'i gwblhau

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylid diweddarau'r amserlen weithgareddau yn gyson a sicrhau ei bod ar gael i'r cleifion.	Cadw'n iach	Mae proses wedi cael ei rhoi ar waith i ddiweddarau'r bwrdd gweithgareddau bob dydd Llun ar ôl cyfarfod cyd-gymorth y staff a'r cleifion (yn unol â dull 'Safewards').	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau
		Mae amserlen weithgareddau weledol, hawdd ei darllen ar gyfer cyfnod o bythefnos, a luniwyd gan Therapydd Galwedigaethol, wedi cael ei harddangos ar yr uned.	Therapydd Galwedigaethol y Ward	Wedi'i gwblhau
Dylid clirio'r ystafell weithgareddau a'i throï'n ystafell weithgareddau a warchodir ar gyfer y cleifion.	Cadw'n iach	Mae'r ystafell wedi cael ei chlirio ac mae gweithgareddau synhwyrdd ar gael yn yr ystafell.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau
Rhaid recriwtio Therapydd Galwedigaethol llawn amser i'r uned a dylai rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau therapiwtig gael ei datblygu i'r cleifion.	Cadw'n iach	Cynhaliwyd cyfweiliadau ar 21/02/23 a phenodwyd un o'r ymgeiswyr. Cytunwyd ar ddyddiad dechrau, sef 01/04/23.	Pennaeth Proffesiynol Therapi Galwedigaethol ar gyfer Anabledau Dysgu	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn glynu wrth ganllawiau	Cadw'n iach	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â deddfwriaeth	Nyrs Is-adrannol	Wedi'i gwblhau

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cyfredol Llywodraeth Cymru ar smygu.		Llywodraeth Cymru.		
Rhaid cael gwared ar y bonion sigarêts yn yr ardd a dylai'r ardd gael ei glanhau a'i chynnal a'i chadw at ddefnydd y cleifion.	Cadw'n iach	Codwyd hyn â'r Is-adran Cyfleusterau a chynhaliwyd cyfarfod ar 17.02.23. Canlyniad: asesu'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn datblygu achos ariannu dros weithredu amserlenni glanhau ardaloedd awyr agored ar unedau iechyd meddwl ac anabledau dysgu.	Uwch-reolwr, Cyfleusterau	Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Ebrill 2023
Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu hyfforddiant ar werthoedd i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio iaith briodol mewn perthynas â gofal cleifion fel eu bod yn gwrando ar y cleifion ar yr uned, yn eu cydnabod ac yn eu parchu.	Gofal ag Urddas	<p>Mae pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar Gefnogi Ymddygiad Cadarnhaol sy'n cynnwys hyfforddiant ar werthoedd.</p> <p>Caiff cyfarfodydd staff pob 4 wythnos eu strwythuro gan ddefnyddio dull 'Safewards'; gan annog geiriau cadarnhaol ac egwyddorion a blaenoriaethau eraill 'Safewards'.</p>	Nyrs Arwain, Anabledau Dysgu	Mehefin 2023

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylid cymryd camau i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgysylltu'n llawn â'r cleifion er mwyn meithrin cydberthnasau ystyrlon rhwng y staff a'r cleifion.	Gofal ag Urddas	Caiff proffiliau byr o'r cleifion, gan gynnwys 'Y pethau rwy'n hoffi eu gwneud', eu llunio fel y gall staff banc ac asiantaeth eu darllen cyn eu shifft.	Rheolwr y Ward a'r Uwch-nyrs	Ebrill 2023
		Cynllun shifft dyddiol i ganolbwyntio ar ddyrannu staff i weithgareddau ymgysylltu â chleifion gan gynnal arsylwadau manylach ar yr un pryd.		
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr uned yn glynu wrth Egwyddorion yr Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ar gyfer Rheoli Wardiau Cymysg, bod mesurau diogelwch yn cael eu rhoi ar waith, a bod cynlluniau gofal ac asesiadau	Gofal ag Urddas	Dim ond ystafelloedd gwely sengl sydd yn yr uned. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u lleoli ar hyd dau goridor, un i'r dynion ac un i'r merched, sy'n cynnwys toiledau/ystafelloedd ymolchi. Mae cyfleusterau en suite mewn dwy ystafell wely.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
risg yn cael eu diweddarau'n unol â hynny.		Os nad yw'n bosibl lletya claf benywaidd yng nghoridor y merched am nad oes digon o welyau ar gael, caiff cynlluniau gofal ac asesiadau risg unigol eu llunio er mwyn sicrhau bod mesurau diogelu priodol ar waith yn unol ag egwyddorion yr Is-adran.		
Dylid sicrhau y caiff gwybodaeth berthnasol a chyfredol i'r cleifion ei harddangos yn ardaloedd cymunedol yr uned ac y caiff ei darparu mewn fformat sy'n hygyrch i gleifion ag anawsterau cyfathrebu neu namau gwybyddol.	Gwybodaeth i gleifion	Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwybodaeth i gleifion mewn gwahanol ieithoedd ac mewn fformat hawdd ei ddarllen. Caiff y wybodaeth hon ei diweddarau'n rheolaidd ac mae ar gael ar fewnwyd y staff.	Rheolwr y Ward/ Uwch-nyrs/ Nyrs Arwain *nodyn - roedd llawer o wybodaeth sy'n cael ei harddangos fel arfer wedi cael ei symud am ei bod yn peri gofid a loes i un o'r cleifion ar yr uned sydd wedi cael ei	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus
		Mae cabinetau arddangos y gellir eu cloi wedi cael eu harchebu fel bod modd arddangos gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chleifion yr uned ym mhrif ardal y ward, ac fel na all cleifion ei thynnu i lawr.		Gorffennaf 2023 (o ganlyniad i'r amser arwain ar gyfer yr archeb)

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Caiff gwybodaeth i gleifion bellach ei harddangos yn yr ystafell ymwelwyr nes bod y cabinetau arddangos yn cael eu danfon.	dderbyn am gyfnod estynedig	Wedi'i gwblhau
		Mae taflen wybodaeth i gleifion ar gael y dylid ei rhoi i bob claf pan gaiff ei dderbyn i'r uned. Caiff y daflen hon ei hadolygu er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gyfredol.		Mehefin 2023
Dylid tacluso a chynnal a chadw'r ystafell golchi dillad at ddefnydd y cleifion.	Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth	Mae'r ystafell golchi dillad wedi cael ei had-drefnu a'i hychwanegu at y ffurflen tasgau dyddiol.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau
Dylai'r bwrdd iechyd gymryd camau i sicrhau bod yr elfen ysbrydol, grefyddol a bugeiliol ar ofal y cleifion yn cael ei chydabod a'i thrin	Hawliau pobl	Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaeth caplaniaeth a all gynnig gofal bugeiliol (llesiant), crefyddol neu ysbrydol i unrhyw un yn y Bwrdd Iechyd a fyddai'n cael budd ohono yn ei farn ef. Mae'r manylion cyswllt wedi cael eu harddangos ar y ward.	Rheolwr y Ward/ Uwch-nyrs/ Nyrs Arwain/ Pennaeth Proffesiynol Therapi Galwedigaethol ar gyfer Anableddau Dysgu	Wedi'i gwblhau

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Ar y ffurflen 'Y pethau rwy'n hoffi eu gwneud', mae adran lle gall y cleifion nodi eu dewisiadau a'u hanghenion ysbrydol a/neu grefyddol.</p>		
		<p>Mae'r arweinydd proffesiynol therapi galwedigaethol wedi trefnu cyfarfod ag aelodau o'r gwasanaeth caplaniaeth i drafod sut y gallant fod yn fwy gweladwy a darparu cymorth i staff a chleifion yr uned.</p>		
<p>Dylai gwybodaeth am Gweithio i Wella gael ei harddangos ar y ward er gwybodaeth i gleifion ac ymwelwyr.</p>	<p>Gwranddo a dysgu o adborth</p>	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwybodaeth i gleifion mewn gwahanol ieithoedd ac mewn fformat hawdd ei ddarllen. Caiff y wybodaeth hon ei diweddarau'n rheolaidd ac mae ar gael ar fewnrwyd y staff.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Gorffennaf 23 (o ganlyniad i'r amser arwain ar gyfer yr archeb)</p>
		<p>Mae cabinetau arddangos y gellir eu cloi wedi cael eu harchebu fel bod modd arddangos gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chleifion yr uned.</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Mae manylion cyswllt Gweithio i Wella bellach wedi cael eu harddangos ar y ward.		Wedi'i gwblhau
		Mae taflen wybodaeth i gleifion ar gael y dylid ei rhoi i bob claf pan gaiff ei dderbyn i'r uned. Mae'r daflen hon yn cynnwys gwybodaeth am sut i wneud cwyn. Atgoffwyd y staff bod angen rhoi'r daflen hon i gleifion a'u gofalwyr pan gânt eu derbyn.		Wedi'i gwblhau
Dylai proses gael ei rhoi ar waith i ymgysylltu â chleifion a gofalwyr er mwyn cael adborth am eu profiad ar yr uned, a dylai byrddau adborth cleifion gael eu diweddarau drwy'r amser.	Gwrando a dysgu o adborth	Fel rhan o lwybr gofal yr uned, mae holiadur adborth ar gael i gleifion a gofalwyr. Caiff adborth o'r holiaduron ei rannu yn ystod cyfarfodydd datblygu'r uned. Caiff y llwybr a'i ddogfennau cysylltiedig, gan gynnwys yr holiadur adborth, eu hailsefydlu o fewn y tîm ar yr uned.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth/ Cyfarwyddwr Clinigol/ Nyrs Arwain	Mehefin 2023

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Mae proses wedi cael ei rhoi ar waith i sicrhau bod adborth gan y cleifion yn cael ei ddiweddarau bob dydd Llun ar ôl cyfarfod cyd-gymorth y staff a'r cleifion yn unol â dull 'Safewards.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau
Rhaid rhoi nifer digonol o allweddi i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Caiff pob aelod o'r staff rheolaidd ei allwedd ei hun ac mae'r Rheolwr Gwella Gwasanaethau yn cadw cofnod o hyn. Mae 4 allwedd sbâr i weithwyr asiantaeth/banc ac mae'n rhaid llofnodi cofnod pan gaiff yr allweddi hyn eu rhoi a'u dychwelyd. Mae proses dyrannu allweddi ar waith erbyn hyn hefyd ar gyfer staff sy'n gadael a staff newydd. Cynhelir archwiliadau mewn perthynas ag allweddi bob 3 mis.	Rheolwr Gwella Gwasanaethau, Anableddau Dysgu	Wedi'i gwblhau
Rhaid rhoi proses archwilio ar waith i sicrhau bod pawb sy'n ymweld â'r uned yn cael eu cofnodi a bod modd rhoi cyfrif amdanynt.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae llyfr i ymwelwyr ei lofnodi wrth gyrraedd bellach ar gael yn yr ystafell ymwelwyr. Hysbyswyd y staff y dylai pob ymwelydd gael ei dywys ar unwaith i'r ystafell ymwelwyr ac	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		y dylai lofnodi'r llyfr cyn mynd i mewn i'r uned. Cynhelir hapwiriadau wythnosol i fonitro cydymffurfiaeth.	Nyrs Arwain	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob uwch-aelod o'r staff yn deall ei rôl a'i gyfrifoldebau mewn perthynas â llywodraethu archwiliadau.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Caiff rhaglen archwilio'r Gyfarwyddiaeth ei thrafod a'i hadolygu yng nghyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Gyfarwyddiaeth a gynhelir bob deufis.	Nyrs Arwain	Wedi'i gwblhau
Rhaid i uwch-reolwyr adolygu archwiliadau clinigol yn rheolaidd fel bod unrhyw broblemau'n cael eu nodi a chyfleoedd i wella ansawdd yn cael eu rhannu.		Mae archwiliadau clinigol ar y ward wedi cael eu dyrannu i aelodau dynodedig o'r staff a chânt eu hadolygu bob mis gan reolwr y ward.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau
		Cynhelir hapwiriadau erbyn hyn i oruchwyllo'r rhain.	Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae uwch-reolwyr y Gyfarwyddiaeth wedi trefnu cyfarfodydd sicrwydd bob deufis â rheolwyr ward ac arweinwyr tîm, sy'n canolbwyntio ar lywodraethu clinigol a sicrwydd. Caiff y wybodaeth o'r cyfarfodydd hyn ei bwydo'n ôl i dîm yr Is-adran yn ystod cyfarfodydd Sicrwydd yr Is-adran â'r Gyfarwyddiaeth, sydd eisoes yn cael eu cynnal.</p>	<p>Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth</p>	<p>Wedi'i gwblhau ac yn barhaus</p>
<p>Dylid tacluso a chynnal a chadw swyddfeydd y staff er mwyn creu amodau gwaith priodol i'r staff.</p>	<p>Atal a rheoli heintiau a dihalogi</p>	<p>Mae gwaith wedi dechrau i glirio'r amgylchedd ac mae sgip wedi cael ei ddarparu i waredu unrhyw eitemau diangen.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Mai 2023</p>
		<p>Mae diwrnod wedi cael ei glustnodi i ddirprwy reolwr y ward, y gweinyddydd a'r Rheolwr Gwella Gwasanaethau waredu unrhyw ddogfennau sydd wedi darfod.</p>	<p>Dirprwy Reolwr y Ward, Rheolwr Gwella Gwasanaethau, Gweinyddydd</p>	

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Dylid cymryd camau pellach i sicrhau bod y staff a'r cleifion yn cael eu hannog i arfer hylendid da ar yr uned. Dylai weipiau diheintio fod ar gael yn hawdd i'r staff eu defnyddio.</p>	<p>Atal a rheoli heintiau a dihalogi</p>	<p>Mae weipiau diheintio ar gael yn y cypyrddau stoc ac mae proses ar waith i sicrhau bod lefelau stoc yn cael eu cynnal. Caiff weipiau diheintio eu hychwanegu at y rhestr wirio o dasgau glanhau dyddiol er mwyn sicrhau eu bod ar gael yn hawdd yn ardaloedd y staff ac yn yr ardaloedd clinigol.</p> <p>Nid oes hylif diheintio dwylo ar gael yn hawdd i'r cleifion am fod risg y gallent ei lyncu, ond atgoffwyd y staff i annog y cleifion i olchi eu dwylo (neu gynnig hylif diheintio iddynt) cyn bwyta ac ar adegau addas.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Mawrth 2023</p>
<p>Dylai proses gael ei rhoi ar waith i sicrhau bod yr holl fanylion perthnasol yn cael eu cofnodi ar yr amserlenni glanhau fel bod y staff yn gwybod pa dasgau y mae angen eu cwblhau ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau bob dydd.</p>	<p>Atal a rheoli heintiau a dihalogi</p>	<p>Mae ffurflenni dyrannu tasgau dyddiol y nyrs â chyfrifoldeb yn cael eu defnyddio ar gyfer pob un o'r tasgau y mae angen eu cyflawni drwy gydol y dydd ac mae aelodau penodedig o'r staff wedi cael eu dyrannu iddynt.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Caiff y rhain eu harchwilio gan reolwr y ward bob mis i sicrhau bod tasgau'n cael eu cwblhau.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob uwch-aelod o'r staff yn deall ei rôl a'i gyfrifoldebau mewn perthynas â llywodraethu archwiliadau	Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Cynhaliwyd Diwrnod Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar 08/03/23 gyda'r uwch-nyrs, rheolwr y ward, dirprwy reolwr y ward a'r nyrsys arwain clinigol er mwyn cadarnhau rolau a chyfrifoldebau.	Nyrs Arwain, Uwch-nyrs, Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau
		Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro gan reolwyr a thrwy Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Perfformiad.		Wedi'i gwblhau ac yn barhaus
Dylid cymryd camau i sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â Chod Gwisg y GIG Cymru Gyfan, a rhaid i ddillad gwaith fynd i'r afael ag	Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Bydd yr Is-adran yn adolygu ei safbwynt ynghylch gwisgo iwniform yn yr holl ddisgyblaethau sy'n rhan o wasanaethau cleifion mewnol.	Nyrs Is-adrannol	Mehefin 2023

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
argymhellion lechyd a Diogelwch allweddol.		Bydd y penderfyniadau a wneir yn seiliedig ar god gwisg Cymru Gyfan a chaiff y cod ei rannu eto â'r holl broffesiynau yn yr Is-adran.		
Rydym yn argymhell y dylai mentrau bwyta'n iach gael eu rhoi ar waith ar yr uned er budd y cleifion.	Maeth a hydradu	Mae gwybodaeth a thafleuni am fyw'n iach ar gael ar yr uned mewn amrywiaeth o fformatau. Mae hyn yn rhan o'r llwybr gofal. Bydd yr uned yn penodi 'Hyrwyddwr Byw'n iach' er mwyn ailgyflwyno grŵp byw'n iach ar y ward.	Rheolwr y Ward	Ebrill 2023
		Mae Deietegydd Arlwyo wedi cysylltu â'r Is-adran i drafod a rhannu arweiniad ynghylch dewisiadau iach. I'w drafod yn ystod cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch Cleifion yr Is-adran.		Mai 2023
Dylai'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o'r dewis o fwyd i gleifion a ddarperir yn yr ysbyty, ei ansawdd a'r ffordd y caiff ei	Maeth a hydradu	Cynhaliodd y Bwrdd Iechyd adolygiad llawn o wasanaethau arlwyo i gleifion drwy ystâd y bwrdd yn ddiweddar. Bydd y	Uwch-reolwr, Is-adran Cyfleusterau	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
baratoi, er mwyn sicrhau ei fod yn flasus ac yn bodloni'r cleifion.		Bwrdd lechyd yn parhau i ofyn am adborth am wasanaethau arlwyo a bwyd ac yn ystyried yr adborth hwnnw.		
Dylid darparu lluniau o'r dewisiadau bwyd fel y gall y cleifion weld bwydlen ysgrifenedig sy'n cynnwys lluniau.	Maeth a hydradu	Yr Is-adran i gysylltu â'r Is-adran Cyfleusterau er mwyn creu llyfrgell weladwy o ddewisiadau bwydlen.	Pennaeth Ansawdd a Gwella, lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Uwch-reolwr, Cyfleusterau	Gorffennaf 2023
Rhaid i silindrau ocsigen gael eu gosod yn sownd yn eu lle er mwyn amddiffyn diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr.	Rheoli meddyginiaethau	Mae dwy botel ocsigen wedi cael eu gosod yn sownd i'r troli dadebru.	Rheolwr y Ward/Uwch-reolwr, Cyfleusterau	Wedi'i gwblhau
Dylid rhoi rhaglen gadarn ar waith i oruchwylio trefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau bod ystafell y clinig yn cael ei chynnal a'i chadw'n briodol, bod meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod archwiliadau	Rheoli meddyginiaethau	Mae ffurflenni dyrannu tasgau dyddiol y nyrs â chyfrifoldeb yn cael eu defnyddio ar gyfer pob un o'r tasgau y mae angen eu cyflawni drwy gydol y dydd, gan gynnwys archwilio ystafell y clinig, ac mae aelodau penodedig o'r staff wedi cael eu dyrannu iddynt.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
rheolaidd yn cael eu cynnal gan staff cymwysedig.		Caiff y rhain eu harchwilio gan reolwr y ward bob mis i sicrhau bod tasgau'n cael eu cwblhau.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus
Dylai'r bwrdd iechyd atodi ffotograffau o'r cleifion wrth Gofnodion Rhoi Meddyginiaeth er mwyn helpu i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rhoi i'r cleifion cywir.	Rheoli meddyginiaethau	Mae ffotograff o bob claf bellach i'w weld wrth ochr ei Gofnod Rhoi Meddyginiaeth (os yw wedi rhoi cydsyniad).	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau
Dylai'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o ddigwyddiadau sydd wedi arwain at anafiadau i staff, er mwyn sicrhau bod ymchwiliadau wedi cael eu cynnal iddynt a'u bod wedi cael eu cau'n briodol.	Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Caiff pob cofnod Datix ei adolygu'n wythnosol erbyn hyn yn ystod cyfarfodydd Rheolwyr yr uned. Mae cynrychiolwyr o'r tîm amlddisgyblaethol ac uwch-reolwyr y Gyfarwyddiaeth yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn. Mae uwch-aelodau o staff y ward wedi adolygu a chau pob cofnod ar Datix nad oedd wedi'i gwblhau.	Rheolwr y Ward, Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Caiff themâu Datix eu hadolygu a'u trafod hefyd yn ystod y cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch Cleifion a chaiff gwersi i'w dysgu eu nodi a'u rhannu.	Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus
		Caiff themâu Datix eu trafod a'u hadolygu hefyd yn ystod y cyfarfodydd sicrhau ansawdd y mae uwch-reolwyr y Gyfarwyddiaeth wedi'u rhoi ar waith.	Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus
		Llwyddwyd i benodi unigolyn i swydd wag seicolegydd arweiniol clinigol yr uned. Fel rhan o'r rôl hon, caiff sesiynau ymarfer myfyriol wythnosol a sesiynau dadfriffio i'r staff eu hadfer.	Seicolegydd Arwain Clinigol	Mehefin 2023

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Mae sesiynau ymarfer myfyriol a dadfriffio ar gael i'r staff ac wedi cael eu cynnig gan y tîm seicoleg tra bod swydd y seicolegydd arwain clinigol wedi bod yn wag.	Pennaeth Seicoleg	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus
Rhaid osgoi defnyddio'r ystafell ymwelwyr fel ystafell wely ychwanegol pan fo'r uned yn llawn er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.	Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Nid yw'r uned erioed wedi derbyn mwy o gleifion os yw'r 7 gwely sydd ar gael yn llawn, a bydd yr arfer hwn yn parhau. Mae'r ystafell ymwelwyr wedi cael ei defnyddio fel ystafell wely am gyfnodau byr o amser o ganlyniad i broblemau diogelu rhwng cleifion ar y pryd. Yn y dyfodol, bydd y Gyfarwyddiaeth yn sicrhau na chaiff yr ystafell ei defnyddio fel ystafell wely ac yn cynnwys hyn ym mholisi gweithredol yr uned.	Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth Nyrs Arwain	Wedi'i gwblhau Mai 2023
I gefnogi cynlluniau gofal a thriniaeth, dylai proffiliau byr gael eu hatodi wrth ffeiliau'r cleifion er gwybodaeth i'r staff, yn enwedig	Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Caiff proffiliau byr eu hychwanegu at y llwybr gofal er mwyn sicrhau bod nyrsys penodedig yn cwblhau proffiliau ar gyfer y cleifion. Caiff y rhain	Rheolwr y Ward	Ebrill 2023

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
staff asiantaeth nad ydynt yn gyfarwydd â'r cleifion.		eu hadolygu a'u diweddarau bob mis.		
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o staff cyflenwi ar gael i gyflawni gwaith gweinyddol ar yr uned.	Cadw cofnodion	Ar adeg yr arolygiad, roedd gweinyddydd yr uned i ffwrdd o'r gwaith ar gyfnod o absenoldeb oherwydd salwch hirdymor. Ers hynny, mae'r aelod o staff wedi gadael y swydd. Mae'r swydd wag yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd ond, yn y cyfamser, mae aelod arall o'r staff gweinyddol yn cyflawni'r rôl.	Rheolwr y Ward	Mehefin 2023
Rhaid i'r uned gael argraffydd sy'n gweithio er mwyn galluogi'r staff i gyflawni eu dyletswyddau.	Cadw cofnodion	Mae peiriannydd wedi edrych ar yr argraffydd ac wedi cadarnhau bod angen argraffydd newydd. Mae argraffydd wedi cael ei archebu. Yn y cyfamser, mae'r argraffydd presennol wedi cael ei drwsio dros dro a gellir defnyddio'r argraffydd yn Alders House (adeilad gyferbyn) hefyd.	Rheolwr y Ward	Mehefin 2023
Dylai cofnodion cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl gael eu hadolygu er mwyn sicrhau nad ydynt yn cynnwys dogfennau diangen.	Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal	Bydd uwch-aelodau o staff y ward yn cynnal archwiliad misol o gofnodion a ffeiliau'r Ddeddf Iechyd Meddwl er mwyn sicrhau	Rheolwr y Ward	Ebrill 2023

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Monitro'r Ddeddf lechyd Meddwl	mai'r dogfennau mwyaf diweddar sy'n cael eu cadw. Bydd Adran Gweinyddu'r Ddeddf lechyd Meddwl yn parhau i gynnal archwiliadau rheolaidd o ddogfennau'r Ddeddf lechyd Meddwl.	Tîm Gweinyddu'r Ddeddf lechyd Meddwl/ Pennaeth Ansawdd a Gwella	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus
Rhaid cymryd camau i sicrhau bod dogfennau'r Ddeddf lechyd Meddwl yn cael eu cwblhau'n llawn ac yn gywir.	Monitro Mesur lechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal Monitro'r Ddeddf lechyd Meddwl	Fel uchod	Fel uchod	Fel uchod
Dylai'r staff gael mwy o hyfforddiant, cyfarwyddyd a chymorth llywodraethu mewn perthynas â'r Ddeddf lechyd Meddwl a threfniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a bod dogfennau'n cael eu cwblhau a'u cyflwyno'n gywir.	Monitro Mesur lechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal Monitro'r Ddeddf lechyd Meddwl	Trefnwyd bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar y Ddeddf lechyd Meddwl a threfniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2023.	Rheolwr y Ward	Mehefin 2023

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai copïau o God Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Cod) fod ar gael ar yr uned	Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Mae Cod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Cod) ar gael yn y brif swyddfa a gall pob aelod o'r staff ei weld.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r bwrdd iechyd ymgysylltu'n llawn â staff y ward i gryfhau systemau rheoli ac arwain er mwyn llywodraethu a goruchwyllo'r uned yn gadarn.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Mae uwch-reolwyr y Gyfarwyddiaeth wedi trefnu cyfarfodydd sicrwydd bob deufis â rheolwyr ward ac arweinwyr tîm, sy'n canolbwyntio ar lywodraethu clinigol a sicrwydd. Cynhelir cyfarfodydd rheolwyr bob wythnos. Mae cynrychiolwyr o'r tîm amlddisgyblaethol ac uwch-reolwyr y Gyfarwyddiaeth yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn. Mae system ar waith i sicrhau bod adborth yn cael ei rannu â'r staff a'r cleifion fel y bo'n briodol ar ôl y cyfarfod hwn.	Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth Tîm Rheoli'r Ward/ Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus Wedi'i gwblhau ac yn barhaus
Rhaid i'r bwrdd iechyd nodi pa hyfforddiant sydd ei angen ar y staff a meysydd y mae angen eu gwella er mwyn sicrhau bod yr	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Mae matrices hyfforddiant yr uned wedi cael ei adolygu ac mae'r holl staff wedi cael dyddiadau ar gyfer hyfforddiant gorfodol yn	Rheolwr y Ward/ Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
uned yn cael ei rheoli'n effeithiol ac amddiffyn diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr.		2023. Caiff anghenion hyfforddiant ychwanegol eu hadolygu a'u hystyried gan grŵp datblygu'r uned.		
Dylai pob aelod o'r staff ddilyn proses sefydlu er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ar yr uned.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Mae proses sefydlu wedi cael ei llunio ac mae aelodau grŵp rheoli'r uned wedi cytuno arni. Bydd pob aelod newydd o staff nawr yn cwblhau'r broses hon.	Rheolwr y Ward/ Penaethiaid Proffesiynol Therapi Galwedigaethol/ Seicoleg	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r bwrdd iechyd roi rhaglen gadarn ar waith i oruchwyllo trefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau bod hyfforddiant gorfodol yn cael ei gwblhau a'i fonitro'n rheolaidd a bod staff yn cael eu cefnogi i ymgymryd â'r hyfforddiant.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Mae'r matrices hyfforddiant wedi cael ei adolygu ac mae'r holl staff wedi cael dyddiadau ar gyfer hyfforddiant gorfodol yn 2023. Caiff anghenion hyfforddiant ychwanegol eu hadolygu a'u hystyried gan grŵp datblygu'r uned. Caiff ystadegau hyfforddiant eu cyflwyno yn ystod y cyfarfodydd sicrwydd llywodraethu a gynhelir bob deufis.	Rheolwr y Ward/ Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth	Ebrill 2023

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r staff goruchwyllo gael hyfforddiant i ddefnyddio'r system matrices hyfforddiant fel y gallant weld cofnodion hyfforddiant staff a goruchwyllo hyfforddiant staff.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Mae'r bwrdd iechyd yn darparu hyfforddiant a llawlyfr ar y Cofnodion Staff Electronig (system matrices hyfforddiant). Mae'r rheolwr cefnogi busnes wedi clustnodi dyddiadau i gyfarfod â rheolwyr tîm ac uwch-aelodau o staff er mwyn cynnig mwy o hyfforddiant ar y Cofnodion Staff Electronig.	Rheolwr Cefnogi Busnes	Mai 2023
Dylid adolygu'r system matrices hyfforddiant bresennol gyda'r nod o gofnodi cydymffurfiaeth pob aelod o'r staff â hyfforddiant ar un system er mwyn gallu llywodraethu a monitro'r sefyllfa yn hwylus.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Mae rheoli cofnodion hyfforddiant drwy'r Cofnodion Staff Electronig wedi cael ei godi â chydweithwyr Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu yn yr Is-adran.	Uwch-reolwr, Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu unrhyw bolisiau nad ydynt yn gyfredol mwyach er mwyn sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau yn cael eu diweddarau a'u bod yn rhoi arweiniad clir i'r staff.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Mae grŵp polisi'r Bwrdd Iechyd yn pennu dyddiadau i adolygu polisiau i dynnu sylw'r 'perchennog' perthnasol er mwyn eu hadolygu. Caiff polisiau'r Is-adran eu hadolygu gan grŵp gorchwyl a gorffen, eu cymeradwyo gan grŵp polisi'r Is-adran sy'n cyfarfod bob deufis a'u cadarnhau gan Grŵp Ansawdd a	Grŵp Polisi'r Bwrdd Iechyd Pennaeth Ansawdd a Gwella	Parhaus Parhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Diogelwch Cleifion yr Is-adran cyn i'r Bwrdd Iechyd eu cadarnhau a'u lanlwytho i'r fewnrwyd.		
Dylai'r bwrdd iechyd barhau i ganolbwyntio ar recriwtio staff parhaol i unrhyw swyddi gwag ar yr uned.	Y Gweithlu	Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi llenwi nifer mawr o swyddi gwag ers mis Ionawr ac mae'n parhau i hysbysebu swyddi gwag yn amserol. Dilyni'r prosesau cenedlaethol fel symleiddio nyrsio hefyd.	Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth a Phartner Busnes Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu	Parhaus
		Caiff yr adnodd olrhain swyddi gwag ei ddiweddarau bob wythnos a'i fwydo'n ôl i'r Is-adran bob pythefnos ar gyfer swyddi nyrsio gwag.		
		Caiff swyddi therapi gwag eu rheoli a'u trafod â'r pennaeth proffesiynol. Caiff swyddi gwag eu hysbysebu'n amserol drwy TRAC ac ar y cyfryngau cymdeithasol.		

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r bwrdd iechyd barhau i gymryd camau i leihau'r defnydd helaeth a wneir o staff banc ac asiantaeth ar yr uned.	Y Gweithlu	Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i graffu ar y defnydd a wneir o staff banc ac asiantaeth ym mhob Is-adran. Mae camau wedi cael eu cymryd i ddefnyddio llai o staff asiantaeth.	Uwch-reolwr, Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu Cyfarwyddwr Nyrsio	Parhaus
		Mae cleifion wedi cael eu rhyddhau'n ddiweddar o'r uned sy'n golygu bod yr uned yn defnyddio llawer llai o staff banc ac asiantaeth.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Michelle Forkings

Teitl swydd: Nyrs Is-adrannol ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Dyddiad: 3 Ebrill 2023